# POLISI DIOGELU
# Ysgol Cerrigydrudion

| Polisi Diogelu | | | |
|---|---|---|---|
| **Cymeradwywyd gan** | Y Corff Llywodraethu Llawn | **Cymeradwywyd ar** | 9.10.25 |
| **Cyfnod Adolygu** | Blwyddyn | **Diweddarwyd / Newidiwyd ddiwethaf** | |
| **Awdur** | | **Dyddiad yr Adolygiad Nesaf** | |

**Rheoli Polisi**

| | |
|---|---|
| **Teitl y Polisi:** | Polisi Diogelu |
| **Aelod staff sy'n gyfrifol am adolygu:** | Y Pennaeth |
| **Llywodraethwr Cyswllt y CLI:** | Gwennol Ellis |
| **Perchennog:** | Y Pennaeth<br>Einir Jones |
| **Aelod o'r CLI / Aelod Staff â chyfrifoldeb am adolygu'r polisi: Cadeirydd y Llywodraethwyr** | Lowri Owen |

**Hanes Diwygio'r Polisi**

| Dyddiad | Fersiwn | Adolygydd Arweiniol | Adolygwyr Ychwanegol | Disgrifiad | Dyddiad cadarnhau gan y CLI llawn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |

| MANYLION CYSWLLT | | |
|---|---|---|
| **MANYLION CYSWLLT DIOGELU'R YSGOL** | | |
| | **ENW** | **CYSWLLT (E-BOST / RHIF)** |
| Unigolyn Diogelu Dynodedig (UDD) | Einir Jones | 01490 420328 |
| Dirprwy Unigolyn Diogelu Dynodedig | Meinir Hughes | 01490 420328 |
| Pennaeth | Einir Jones | 01490 420328 |
| Llywodraethwr Dynodedig ar gyfer Diogelu | Lowri Owen | |
| Cadeirydd y Llywodraethwyr | Lowri Owen | |

| MANYLION CYSWLLT ALLWEDDOL CONWY | |
|---|---|
| I wneud Atgyfeiriad Amddiffyn Plant | Oriau swyddfa: 01492 575111<br>Tu allan i oriau swyddfa: 0300 123 3079 |
| Rhif Canolfan Gyswllt Generig ar gyfer Ymholiadau Cyffredinol Diogelu Plant: | 01492 575111 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion – Un Pwynt Mynediad | 0300 456 1111 |
| Plant sy'n derbyn gofal | 0300 123 3079 |
| Prif Swyddog Addysg<br>Pennaeth y Gwasanaethau Addysg | Dr Lowri Brown<br>dr.lowri.brown@conwy.gov.uk |
| Arweinydd Diogelu Dynodedig ar gyfer Addysg (Rheolwr Gwasanaeth Cynhwysiad Cymdeithasol GGA)<br><br>Unigolyn Cyswllt Diogelu'r Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Addysg / Cydlynydd Addysg Ddewisol yn y Cartref | Scott Fordwhalley<br>scott.fordwhalley@conwy.gov.uk<br><br>Ffion Hughes<br>Ffion.Hughes@conwy.gov.uk |
| Swyddog Iechyd a Lles | Huw Evans<br>huw.evans@conwy.gov.uk |
| Y Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaethol (MASH) | Cathryn Taylor<br>cathryn.taylor@conwy.gov.uk<br>01492575264 |
| Heddlu Gogledd Cymru | Mewn Argyfwng: 999<br>Heb fod mewn Argyfwng: 101 |

Commented [SF1]: Explain exactly what is needed

Commented [CS2]: Titles need to be right

# Cynnwys


Rheoli Polisi ... 2

Hanes Diwygio'r Polisi ... 2

1. CYFLWYNIAD ... 5

2. Y FFRAMWAITH AR GYFER DIOGELU YNG NGHYMRU ... 8

2.1 Cyd-destun Deddfwriaethol ... 8

2.2 Dyletswydd Statudol i Adrodd ... 9

2.3 Polisïau Perthnasol ... 9

3. ATAL ... 10

4. ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU ... 10

4.1 Rôl yr Awdurdod Lleol ... 10

4.2 Rôl y Corff Llywodraethu ... 12

4.3 Cyfrifoldebau'r Llywodraethwr Dynodedig ar gyfer Diogelu ... 13

4.4 Cyfrifoldebau'r Pennaeth ... 13

4.5 Cyfrifoldebau'r Unigolyn Diogelu Dynodedig (UDD) ... 14

4.5 Cyfrifoldebau'r Holl Staff ... 15

5. GWEITHDREFNAU ... 16

5.1 Cofnodi Pryderon ... 17

5.2 Adrodd ... 17

5.3 Cyfrinachedd ... 18

5.4 Cymryd Rhan yn y Broses Amddiffyn Plant ... 18

6. RHANNU GWYBODAETH ... 19

6.1 Egwyddorion ... 20

7. HELPU UNIGOLION SY'N WYNEBU RISG ... 20

7.1 Gwrth-fwlio ... 21

7.2 Cyswllt Corfforol gyda Myfyrwyr, gan gynnwys Ataliaeth ... 21

7.3 Plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ... 22

8. CYFRIFOLDEBAU DIOGELU MEWN AMGYLCHIADAU PENODOL ... 22

8.1 Caethwasiaeth Fodern ... 22

8.2 Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant ... 22

8.3 Camfanteisio Troseddol ar Blant ... 23

8.4 Achosion o Gam-drin ac Ymddygiad Rhywiol Niweidiol rhwng Cyfoedion ... 23

8.5 Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) ... 24

8.2 Operation Encompass ... 24

8.3 Priodas dan Orfod ... 24

8.8 Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod ..... 25
9. DIOGELWCH AR-LEIN ..... 25
9.1 360 Degree Safe Cymru ..... 26
9.2 Ffrydio Byw ..... 26
9.3 Rhannu Delweddau Noeth a Hanner Noeth ..... 26
9.4 Cam-drin Ar-lein ..... 27
9.5 Hidlo Cynnwys y We ..... 28
10. CYDLYNIANT CYMUNEDOL - ATAL RADICALEIDDIO ..... 28
10.1 Llogi Lleoliad ..... 29
11. DIOGELWCH SAFLE'R YSGOL ..... 29
11.1 Rheoli Mynediad ..... 29
11.2 Gweithdrefnau Cloi mewn Argyfwng ..... 30
11.3 Dianc ..... 30
12. ARFER RECRIWTIO MWY DIOGEL ..... 31
12.1 Athrawon Cyflenwi ..... 32
12.2 Gwirfoddolwyr ..... 32
13. HONIAD YN ERBYN AELOD STAFF NEU OEDOLYN ..... 32
13.1 Rhannu Pryderon ..... 33
14. CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIAD ..... 33
15. BWRDD DIOGELU PLANT GOGLEDD CYMRU (BDPGC) ..... 34
CYFEIRIADAU ..... 35
- Diogelu plant rhag Camfanteisio Troseddol ..... 35

## 1. CYFLWYNIAD

Mae Ysgol Cerrigydrudion yn cydnabod y cyfrifoldeb moesol a statudol i ddiogelu a hybu lles pob plentyn. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd darparu ethos ac amgylchedd o fewn ein hysgol a fydd yn helpu'r dysgwyr i deimlo'n ddiogel a'u bod yn cael parch, yn eu hannog i siarad yn agored, ac yn eu galluogi i fod yn ffyddiog y bydd rhywun yn gwrando arnynt. Rydym yn gwylio am arwyddion o gamdriniaeth ac esgeulustod ac yn dilyn Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019 https://diogelu.cymru/cy er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cefnogi a'u hamddiffyn yn effeithiol ac yn cael cyfiawnder. Dylech hefyd ddarllen Polisi Diogelu Corfforaethol Cyngor Conwy.

Dyma egwyddorion diogelu craidd ein hysgol:

- Mae gan bob dysgwr hawl i gael eu hamddiffyn rhag pob math o gamdriniaeth a gwahaniaethu ac i gael eu trin yn deg, waeth beth fo'u hoedran, rhyw, tarddiad hiliol, diwylliant, cred grefyddol, iaith, anabledd na hunaniaeth rywiol.
- Mae gan bob dysgwr hawl i gael eu clywed ac i bobl ystyried eu dymuniadau a'u teimladau.
- Mae pob aelod staff yn deall arferion proffesiynol diogel ac yn cadw at ein cod ymddygiad a pholisïau cysylltiedig eraill.
- Mae cyfrifoldeb ar bob aelod staff i adnabod os yw dysgwr yn agored i niwed a gweithredu ar unrhyw bryder yn unol â'r polisi hwn.

Mae tair prif elfen i'r polisi hwn:

- Atal drwy'r diwylliant, yr addysgu a'r cymorth bugeiliol a gynigir i ddysgwyr;
- Gweithdrefnau ar gyfer nodi ac adrodd am achosion, neu amheuaeth, o gam-drin. Gan ein bod mewn cyswllt â phlant o ddydd i ddydd, mae staff ysgolion mewn sefyllfa dda i sylwi ar arwyddion allanol cam-drin;
- Cefnogaeth i'r dysgwyr hynny allai fod wedi cael eu cam-drin.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn Ysgol Cerrigydrudion a'i Llywodraethwyr. Gall Cynorthwywyr Cymorth Dysgu, goruchwylwyr canol dydd, gofalwyr, ysgrifenyddion yn ogystal ag athrawon fod yn bwynt cyswllt cyntaf i blentyn ddatgelu camdriniaeth. Mae'r pwynt cyswllt cyntaf hwn yn rhan bwysig o'r broses amddiffyn plant ac mae'n hanfodol bod yr holl staff yn ymwybodol o weithdrefnau'r ysgol ac yn eu dilyn.

Ystyr diogelu yn ôl Canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 2020 https://llyw.cymru/cadw-dysgwyr-yn-ddiogel yw *'atal ac amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed, ac addysgu pobl o'u cwmpas i adnabod yr arwyddion a'r peryglon'.*

Diffinnir diogelu a hybu lles pob plentyn sy'n mynychu lleoliad addysg fel a ganlyn:

- Amddiffyn plant rhag y risg o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed
- Atal unrhyw beth sy'n amharu ar iechyd neu ddatblygiad plant
- Sicrhau bod plant yn tyfu i fyny dan amgylchiadau sy'n gyson â darparu gofal diogel ac effeithiol
- Gweithredu er mwyn galluogi pob plentyn i gyflawni'r deilliannau gorau.

Dylai pob aelod staff fod yn ymwybodol o ddiffiniadau cam-drin ac esgeulustod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn ogystal ag arwyddion a dangosyddion camdriniaeth ac esgeulustod. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cyfathrebu pryderon am niwed mewn ffordd ystyrlon. Mae'r diffiniadau isod wedi'u nodi yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru 2019:

Ystyr *'camdriniaeth' a 'cam-drin'* yw camdriniaeth gorfforol, rywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol.

Ystyr *'esgeulustod'* yw methiant i ddiwallu anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu seicolegol sylfaenol person, sy'n debygol o arwain at amharu ar lesiant y person (er enghraifft, amharu ar iechyd y person neu, yn achos plentyn, amharu ar ddatblygiad y plentyn);

Ystyr *'plentyn'* yn ôl Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r Canllawiau cysylltiedig yw person dan 18 oed.

Ystyr *'plentyn sy'n wynebu risg'* yn ôl A.130(4) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

2014 yw plentyn:

- sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed, ac
- y mae arno anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw rai o'r anghenion hynny ai peidio).

Ystyr *'oedolyn sy'n wynebu risg'* yw oedolyn:

- sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso
- y mae arno anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw rai o'r anghenion hynny ai peidio), ac
- nad yw, o ganlyniad i'r anghenion hynny, yn gallu amddiffyn ei hun rhag cael, neu'r risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso.

Mae'r defnydd o'r term *'wynebu risg'* yn golygu nad oes angen i achosion o gamdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed fod wedi digwydd o reidrwydd, ond yn hytrach, bod achosion o gamdriniaeth ac esgeulustod yn debygol o ddigwydd heb ymyriadau gan wasanaethau.

Ystyr *'niwed'* yw:

- camdriniaeth; mae hyn yn cynnwys camdriniaeth rywiol, esgeulustod, camdriniaeth emosiynol a chamdriniaeth seicolegol
- Achosi amhariad i iechyd corfforol neu iechyd meddwl (gan gynnwys yr hun a ddioddefir yn sgil gweld neu glywed person arall yn dioddef camdriniaeth).
- Achosi amhariad i ddatblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiadol (gan gynnwys yr hyn a ddioddefir yn sgil gweld neu glywed person arall yn dioddef camdriniaeth).

*'Niwed Arwyddocaol'* - nid oes diffiniad statudol o niwed arwyddocaol. Felly, rhaid i ymarferwyr ystyried:

*'Os yw'r cwestiwn ynghylch p'un a yw niwed yn arwyddocaol ai peidio yn dibynnu ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn, dylid cymharu iechyd neu ddatblygiad y plentyn â'r hyn y gellid yn rhesymol ei ddisgwyl mewn perthynas â phlentyn tebyg'* (Adran 31(9)), Deddf Plant 1989.

Mae pryderon am niwed arwyddocaol tebygol neu wirioneddol i blentyn yn drothwy ar gyfer dechrau ymholiadau a47 dan Ddeddf Plant 1989.

Gweler isod restr, nad yw'n rhestr gyflawn, o enghreifftiau ar gyfer pob un o'r categorïau niwed, camdriniaeth ac esgeulustod sydd i'w gweld yn Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 5 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant sy'n Wynebu Risg:-

**Cam-drin corfforol** – taro, slapio, gorddefnyddio neu gamddefnyddio meddyginiaeth, ataliaeth ormodol neu ymdriniaeth amhriodol.

**Cam-drin emosiynol** – bygythiadau o niwed neu adael, rheolaeth drwy orfodaeth, bychanu, cam-drin geiriol neu hiliol, ynysu neu dynnu allan o wasanaethau neu rwydweithiau cefnogol, bod yn dyst i achosion o gam-drin eraill.

**Cam-drin rhywiol** – gorfodi neu hudo plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, p'un a yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio, gan gynnwys: cyswllt corfforol, gan gynnwys gweithredoedd treiddiol neu heb fod yn dreiddiol; gweithgareddau heb gyswllt, megis cynnwys plant yn y broses o wylio neu gynhyrchu deunyddiau pornograffig, neu wylio gweithgareddau rhywiol; annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd amhriodol yn rhywiol.

**Cam-drin ariannol** – bydd y categori hwn yn llai cyffredin ar gyfer plentyn ond dyma rai dangosyddion posib: peidio â diwallu ei anghenion am ofal a chymorth a roddir drwy daliadau uniongyrchol; neu gwynion bod eiddo personol ar goll.

**Esgeuluso** – methu â diwallu anghenion corfforol, emosiynol neu seicolegol sylfaenol sy'n debygol o arwain at amhariad i iechyd neu ddatblygiad.

I ddysgu am arwyddion a dangosyddion o gam-drin, esgeulustod a niwed posib mewn plentyn, darllenwch Weithdrefnau Diogelu Cymru: https://diogelu.cymru/cy/chi-i/chi-i-cp/c1p-p2/

## 2. Y FFRAMWAITH AR GYFER DIOGELU YNG NGHYMRU

Mae gan bob ysgol a choleg ddyletswyddau statudol i weithredu mewn modd sy’n ystyried yr angen i ddiogelu a hybu lles plant, ac yn achos rhai colegau, oedolion. Mae’r cyfrifoldebau cyfreithiol wedi’u nodi yn y canlynol:

- Dyletswydd gofal y gyfraith gyffredin
- Y ddyletswydd i adrodd
- Y ddyletswydd sy’n deillio o’r cytundeb cyflogaeth

Mae angen i’r trefniadau sydd gan awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion ar waith i gydymffurfio â’r dyletswyddau statudol hyn sicrhau:

- bod mesurau rhesymol yn cael eu cymryd i leihau’r risgiau o niwed i les plant;
- bod camau priodol yn cael eu cymryd i fynd i’r afael â’r pryderon am les plentyn neu blant, gan weithio yn unol â pholisïau a gweithdrefnau lleol y cytunwyd arnynt mewn partneriaeth lawn ag asiantaethau lleol eraill.

### 2.1 Cyd-destun Deddfwriaethol

Mae Adran 175 Deddf Addysg 2002 yn ei gwneud yn ofynnol i Gyrff Llywodraethu ysgolion, Awdurdodau Addysg Lleol a sefydliadau addysg bellach wneud trefniadau i ddiogelu a hybu lles pob plentyn sy’n fyfyrwyr mewn ysgol, neu sy’n fyfyrwyr dan 18 oed.

Mae Deddf Plant 1989 a 2004 yn gosod dyletswydd statudol ar amrywiaeth o sefydliadau i wneud trefniadau i sicrhau bod eu swyddogaethau, a’r gwasanaethau a ddarperir ar eu rhan, yn cael eu darparu gan roi ystyriaeth i’r angen i ddiogelu a hybu lles plant.

Bydd Corff Llywodraethu Ysgol Cerrigydrudion yn sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o’r ddeddfwriaeth a’r canllawiau perthnasol mewn perthynas â diogelu plant yn eu gofal, a byddant yn rhoi sylw dyledus i’r canlynol:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 sy’n cynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015
- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015
- Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Yma yn Ysgol Cerrigydrudion, byddwn yn dilyn Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019 a gymeradwywyd gan Fwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru. Ochr yn ochr â’r gweithdrefnau hyn, bydd yr ysgol yn dilyn dogfen Canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel rhif: 265/2020, a gefnogir gan unrhyw ganllawiau a phrotocolau eraill sydd wedi’u cymeradwyo a’u cytuno gan Fwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru ar y cyd â’r polisi hwn.

Gall methu â sicrhau bod trefniadau ar waith fel sy’n ofynnol dan adran 175, neu fethu â chadw at reoliadau a wnaed dan adran 157 Deddf 2002, neu fethu â rhoi sylw i ganllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, fod yn sail i Weinidogion Cymru gymryd camau yn erbyn awdurdodau lleol neu gyrff llywodraethu. Yr awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu sy'n gyfrifol am sicrhau bod y trefniadau hyn ar waith. Nid oes gan unigolion atebolrwydd uniongyrchol.

### 2.2 Dyletswydd Statudol i Adrodd

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd i adrodd am blant ac oedolion sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.

Yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019, bydd dyletswydd i adrodd i'r awdurdod lleol yn golygu atgyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol sydd, ochr yn ochr â'r heddlu, yn meddu ar rymoedd statudol i ymchwilio i amheuaeth o gam-drin neu esgeulustod. Mae'r defnydd o'r term 'wynebu risg' yn golygu nad oes rhaid i achosion gwirioneddol o gamdriniaeth neu esgeulustod fod wedi digwydd, ond yn hytrach, dylid ystyried ymyriadau cynnar i amddiffyn plant ac oedolion sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin er mwyn rhwystro achosion gwirioneddol o gam-drin ac esgeuluso.

Rhaid llunio adroddiad pan fydd pryderon am blentyn dan 18 oed:

- sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso
- y mae arno anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw rai o'r anghenion hynny ai peidio)

Dylid llunio adroddiad pan fydd pryderon am oedolyn sy'n wynebu risg:

- sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso
- y mae arno anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw rai o'r anghenion hynny ai peidio), ac
- nad yw, o ganlyniad i'r anghenion hynny, yn gallu amddiffyn ei hun rhag cael, neu'r risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso.

Os oes gan unrhyw aelod staff wybodaeth, pryderon neu amheuon bod plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg yn dioddef, wedi dioddef neu'n debygol o wynebu risg o niwed, eu cyfrifoldeb nhw yw sicrhau bod y pryderon yn cael eu hatgyfeirio at yr Unigolyn Diogelu Dynodedig. **NID MATER O DDEWIS PERSONOL YW HYN.**

### 2.3 Polisïau Perthnasol

Yn ogystal â'r polisi diogelu hwn, mae yna bolisïau eraill sy'n berthnasol i ddiogelu y bydd ein hysgol yn eu monitro i sicrhau bod cysondeb a chydlyniad yn y ffordd rydym yn diogelu ein dysgwyr yn effeithiol. Dyma enghreifftiau o bolisïau perthnasol eraill:

- Polisi Ymddygiad a Disgyblaeth
- Ymyrraeth ac Ymdriniaeth Gadarnhaol
- Defnydd Derbyniol o ran rhwydweithiau ysgol a gwasanaethau ar-lein
- Gwrth-fwlio
- Hysbysiadau Preifatrwydd a Diogelu Data
- Polisi Camddefnyddio Sylweddau Cyngor Sir Conwy
- Addysg Rhyw
- Iechyd a Diogelwch
- Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Presenoldeb
- Asesiadau Risg (e.e. tripiau ysgol)
- Rheoli Honiadau yn Erbyn Staff - Polisi Disgyblu Staff
- Cod Ymddygiad Staff - Polisi Disgyblu Staff
- Gweithdrefnau Recriwtio Mwy Diogel
- Rhannu Pryderon
- Atal Eithafiaeth a Radicaleiddio
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Cludiant

## 3. ATAL

Yn Ysgol Cerrigydrudion, rydym yn cydnabod bod lefel uchel o hunan-barch, hyder, ffrindiau cefnogol a dulliau da o gyfathrebu gydag oedolyn dibynadwy'n helpu diogelu dysgwyr. Mae adnabod ac ymyrryd yn gynnar yn allweddol i ddiwallu anghenion plant drwy atal neu oedi amgylchiadau a allai arwain at ymyrraeth gan y gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys adnabod Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a chamau gweithredu i'w hatal neu eu lliniaru, neu helpu'r plentyn i feithrin gwytnwch. Mae meithrin gwytnwch mewn plant a phobl ifanc yn ganolog i'r dull ysgol gyfan o ymdrin â lles meddyliol ac emosiynol.

Dylid integreiddio gwaith atal, lle bo hynny'n ymarferol, ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol a mynd i'r afael ag o ar adegau priodol yn y cwricwlwm. Bydd hyn yn helpu creu ethos cadarnhaol sy'n cynnig amgylchedd diogel i ddysgwyr allu dysgu a chael y cyfle a'r hyder i rannu pryderon ag eraill. Gall trafod problemau a gwrando ar safbwyntiau a barn cyfoedion helpu newid agweddau a chynnig cymorth. Wrth drafod materion sensitif, rhaid eu cyflwyno mewn ffordd gytbwys a sicrhau bod materion moesegol yn cael eu trafod yn wrthrychol. Fodd bynnag, mae'r un mor bwysig galluogi dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb am eu hymddygiad.

Felly, bydd Ysgol Cerrigydrudion yn:

- Sefydlu a chynnal ethos lle mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu hannog i siarad, a lle mae rhywun yn gwrando arnynt;
- Sicrhau bod plant yn gwybod bod oedolion yn yr ysgol y gallant fynd atynt i siarad os ydynt yn poeni neu mewn trafferthion;
- Cynnwys gweithgareddau a chyfleoedd am Addysg Perthnasoedd a Rhyw o fewn y cwricwlwm sy'n darparu'r sgiliau y mae ar blant eu hangen i fod yn ddiogel rhag camdriniaeth ac i wybod at bwy y gallent droi i gael cymorth;
- Cynnwys deunydd yn y cwricwlwm a fydd yn helpu plant i feithrin agweddau realistig at gyfrifoldebau oedolion, yn enwedig mewn perthynas â sgiliau gofal plant a rhianta;
- Meithrin perthnasoedd gydag asiantaethau eraill a sicrhau bod atgyfeiriadau cynnar a phriodol am gymorth ac ymyrraeth yn cael eu gwneud cyn i'r risgiau waethygu;
- Mabwysiadu ymagwedd ysgol gyfan (neu leoliad cyfan) at les, a fydd yn ymgorffori mesurau diogelu ac atal i gefnogi plant a theuluoedd.

## 4. ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU

### 4.1 Rôl yr Awdurdod Lleol

Rhaid i'r Awdurdod Lleol sicrhau bod uwch swyddog priodol o fewn yr adran addysg wedi'i ddynodi i fod â chyfrifoldeb arweiniol dros gyflawni ei ddyletswyddau diogelu mewn addysg. Dylai'r ystod o gyfrifoldebau a briodolir i swydd y swyddog dynodedig fod yn gyson â'r angen i sicrhau bod trefniadau diogelu effeithiol ar waith ar draws swyddogaethau addysg yr awdurdod. Yng Nghyngor Conwy, y Rheolwyr Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn Addysg yw:

- Sian Pineau – Rheolwr Gwasanaeth, Gwaith Cymdeithasol Addysg
- Rachel Simmonds – Rheolwr Strategol, Gwasanaeth Ieuenctid Conwy
- Libby Duo – Rheolwr Strategol, Gwasanaeth Cyflogaeth Conwy

Mae gan yr Awdurdod Lleol gyfrifoldebau ar dair lefel: strategol, cefnogol a gweithredol, fel y nodir yn Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 2020. Bydd Cyngor Sir Conwy'n cynllunio, yn cydlynu gwasanaethau ac yn dyrannu adnoddau gan weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill er mwyn bodloni'r gofynion hyn.

Ar lefel **strategol**, dylai'r awdurdod lleol sicrhau:

- Eu bod yn dyrannu adnoddau i gefnogi gwaith Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru (BDPGC);

- Bod eu Huwch Swyddogion, gan gynnwys swyddogion addysg, yn cynrychioli'r awdurdod ar BDPGC, a bod yr awdurdod yn gwneud cyfraniad effeithiol o ran cynllunio gwasanaethau cydlynol i ddiwallu

anghenion plant;

- Eu bod yn gweithio gydag asiantaethau eraill i wneud a chefnogi trefniadau effeithiol i weithio mewn partneriaeth;
- Eu bod yn meithrin perthynas waith gadarnhaol ac yn sicrhau cyfathrebu effeithiol gyda gwasanaethau eraill yn yr awdurdod lleol;
- Bod adnoddau'n cael eu dyrannu er mwyn galluogi'r awdurdod lleol ac ysgolion a gynhelir i gyflawni eu cyfrifoldebau am ddiogelu plant yn foddhaol;
- Cysylltiad effeithiol gyda'r awdurdodau esgobaethol priodol mewn perthynas â threfniadau i ddiogelu plant mewn ysgolion a gynorthwyir yn eu hardal;
- Bod cydymffurfiaeth ysgolion a gynhelir gyda'r canllawiau hyn yn cael ei fonitro, yn enwedig o ran gwiriadau cyflogaeth (gan gynnwys staff dros dro a staff asiantaeth), presenoldeb a gweithrediad polisïau a gweithdrefnau priodol, a hyfforddiant a goruchwyliaeth staff, gan gynnwys yr uwch aelod staff â chyfrifoldeb diogelu dynodedig mewn ysgolion;
- Eu bod yn dwyn unrhyw ddiffygion at sylw Corff Llywodraethu'r ysgol ac yn rhoi cyngor ar sut i fynd ati i'w datrys;
- Bod problemau rhyngasiantaethol yn cael eu datrys cyn gynted ag y bo modd ar ôl dod i'r amlwg;
- Eu bod yn chwarae rhan lawn mewn Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl yn unol â *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.* Mae canllawiau statudol yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl yn disodli Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, Cyfrolau 2 (Adolygiadau Ymarfer Plant) a 3 (Adolygiadau Ymarfer Oedolion) - Canllawiau-statudol-adus-adolygiad-diogelu-unedig-sengl

Ar lefel **gefnogol**, dylai'r awdurdod lleol sicrhau:

- Bod yr hyfforddiant sefydlu ar gyfer pob aelod staff newydd mewn lleoliad addysg yn yr awdurdod, ac ar gyfer aelodau staff a fydd yn gweithio gyda phlant mewn ysgolion a gynhelir, yn cynnwys hyfforddiant diogelu a fydd yn eu galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol mewn perthynas ag amddiffyn plant, gan gynnwys ymateb i ddatgeliadau o gamdriniaeth, esgeulustod a mathau eraill o niwed, yn briodol ac yn sensitif;
- Bod hyfforddiant gloywi addas yn cael ei gwblhau i gadw gwybodaeth a sgiliau staff yn gyfredol;
- Bod hyfforddiant diogelu uwch blynyddol yn cael ei ddarparu i unigolion diogelu dynodedig a'r llywodraethwyr cyswllt;
- Bod Llywodraethwyr ysgolion a gynhelir hefyd dderbyn hyfforddiant priodol ar eu cyfrifoldebau diogelu ac ar ymdrin â honiadau o gamdriniaeth yn erbyn staff ysgol;
- Bod hyfforddiant pellach ar waith rhyngasiantaethol i ddiogelu plant, naill ai wedi'i ddarparu gan BDPGC neu'n bodloni'r safonau a osodwyd gan y Bwrdd, ar gael i bob aelod staff sy'n gyfrifol am ddiogelu. Dylai hyfforddiant gloywi addas hefyd fod ar gael ac yn bodloni'r safonau a osodwyd gan BDPGC;
- Eu bod yn cadw cofnod o'r holl Uwch Unigolion Dynodedig a Llywodraethwyr dynodedig ar gyfer diogelu o fewn ysgolion yn eu hardal, yn ogystal â'r hyfforddiant a gafwyd a dyddiadau cynnal yr hyfforddiant;
- Eu bod yn cynnal trosolwg o'r trefniadau goruchwylio ar gyfer UDD yn yr awdurdod i sicrhau nad yw'r rôl yn cael effaith andwyol ar eu lles a'u bod yn cael cyfle i fyfyrio ar eu hymarfer;
- Eu bod yn darparu polisïau a gweithdrefnau enghreifftiol ar gyfer ysgolion a gynhelir ar bob agwedd ar amddiffyn plant, gan gynnwys recriwtio, a gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â honiadau o gamdriniaeth yn erbyn staff a gwirfoddolwyr. Rhaid i'r polisïau a'r gweithdrefnau gyd-fynd â Chanllawiau Llywodraeth Cymru (yn enwedig y polisi enghreifftiol a'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd yn y *Gweithdrefnau disgyblu a diswyddo staff ysgol: Canllawiau diwygiedig i Gyrff Llywodraethu, cylchlythyr 002/2020*;
- Eu bod yn darparu cyngor, canllawiau a chefnogaeth ar ymdrin ag achosion unigol i ysgolion a gynhelir a'r Unigolion Diogelu Dynodedig yn y sefydliadau hynny. Yn ôl yr angen, dylai'r awdurdod weithredu ar eu rhan i ddatrys unrhyw anawsterau gyda, neu i gael cymorth priodol gan, asiantaethau partner BDPGC;
- Cysylltiad ag ysgolion a gynhelir, asiantaethau a cholegau i sicrhau bod atgyfeiriadau'n cael eu gwneud i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) / y Cyngor y Gweithlu Addysg;
- Sicrhau bod trefniadau ar waith i gefnogi staff yn yr awdurdod ac ysgolion a gynhelir sydd â chyfrifoldeb arweiniol dynodedig dros ddiogelu. Dylai'r trefniadau hyn annog a meithrin dealltwriaeth

a pherthynas waith dda rhyngddynt hwy, gweithwyr cymdeithasol plant a staff mewn asiantaethau eraill sy'n ymwneud â diogelu plant, er mwyn datblygu gwaith partneriaeth effeithiol.

Ar lefel **weithredol** dylai'r awdurdod lleol:

- Roi gweithdrefnau recriwtio diogel ar waith a chefnogi ysgolion i sicrhau bod yr holl wiriadau priodol yn cael eu cynnal ar staff newydd a gwirfoddolwyr a fydd yn gweithio gyda phlant heb oruchwyliaeth, gan gynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS);
- Diogelu a hybu lles plant nad ydynt wedi cael lle mewn ysgol, neu sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol, gan gynnwys yr unigolion hynny sy'n cael eu haddysgu mewn unedau cyfeirio disgyblion, darpariaeth amgen neu drwy'r gwasanaeth tiwtoriaid cartref;
- Ceisio meithrin perthnasoedd effeithiol gydag addysgwyr yn y cartref er mwyn diogelu buddiannau addysgol a lles y plant. Bydd gwneud hynny'n galluogi rhieni/ gofalwyr i gael gafael ar unrhyw gefnogaeth sydd ar gael ac yn caniatáu i'r awdurdodau ddod i ddeall darpariaeth addysgol y rhieni / gofalwyr;
- Sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer goruchwylio honiadau o gamdriniaeth yn erbyn aelodau staff yn yr awdurdod, ysgolion neu golegau. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau, 'Gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo Staff Ysgol: Canllawiau diwygiedig i Gyrff Llywodraethu';
- Gweithio gydag ysgolion ac asiantaethau partner BDPGC i sicrhau yr ymdrinnir â honiadau yn gyflym, yn deg ac yn gyson, a bod atgyfeiriadau priodol yn cael eu gwneud i'r DBS a Chyngor y Gweithlu Addysg;
- Sicrhau bod staff yr awdurdod sy'n gweithio gyda phlant (gan gynnwys unrhyw staff sy'n gweithredu ar ran yr awdurdod) yn cael hyfforddiant sy'n eu paratoi i gyflawni eu dyletswyddau i amddiffyn plant yn effeithiol.

### 4.2 Rôl y Corff Llywodraethu

Mae cyrff llywodraethu yn atebol am sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith i ddiogelu a hybu lles plant yn unol â chanllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 2020, a monitro cydymffurfiaeth â'r canllawiau. Rhaid i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir sicrhau eu bod:

- Yn rhoi polisïau a gweithdrefnau diogelu effeithiol ar waith (yn cynnwys rhai ar gyfer amddiffyn plant) sydd:
    - yn cyd-fynd â chanllawiau'r awdurdod lleol, gweithdrefnau rhyngasiantaethol y cytunwyd arnynt yn lleol a safonau gofynnol cenedlaethol,
    - yn cynnwys gwasanaethau sy'n ymestyn y tu hwnt i'r diwrnod ysgol/coleg (e.e. llety preswyl, gweithgareddau cymunedol ar safle'r ysgol ac ati),
    - yn cael eu hadolygu o leiaf unwaith y flwyddyn,
    - ar gael i rieni neu ofalwyr ar gais, ac
    - yn cael eu darparu mewn fformat sy'n addas i ddealltwriaeth plant, yn enwedig lle mae ysgolion a cholegau'n darparu ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Yn rhoi gweithdrefnau recriwtio diogel ar waith sy'n ystyried yr angen i ddiogelu plant, gan gynnwys trefniadau i sicrhau bod pob gwiriad priodol yn cael ei gynnal ar gyfer aelodau staff newydd a gwirfoddolwyr a fydd yn gweithio gyda phlant heb oruchwyliaeth, gan gynnwys gwiriadau DBS perthnasol;
- Yn sicrhau bod y Pennaeth a phob aelod staff a gwirfoddolwr parhaol arall sy'n gweithio gyda phlant yn cael yr hyfforddiant sydd ei angen i gyflawni eu cyfrifoldebau diogelu yn effeithiol, a bod yr hyfforddiant hwnnw'n cael ei ddiweddaru'n gyson ar ffurf hyfforddiant gloywi;
- Yn rhoi arweiniad clir i staff a gwirfoddolwyr dros dro sy'n cyflenwi yn ystod absenoldebau tymor byr ac a fydd yn gweithio gyda phlant;
- Yn sicrhau bod y Corff Llywodraethu yn mynd ati'n ddi-oed i unioni unrhyw ddiffygion neu wendidau mewn perthynas ag unrhyw drefniadau amddiffyn plant y tynnwyd ei sylw atynt;

- Yn sicrhau bod yr UDD, y Llywodraethwr dynodedig a Chadeirydd y Llywodraethwyr yn cael hyfforddiant ar weithio rhyngasiantaethol sy'n cael ei ddarparu gan BDPGC, neu sy'n unol â safonau BDPGC, yn ogystal â hyfforddiant gloywi er mwyn i'w gwybodaeth a'u sgiliau fod yn gyfredol, yn ychwanegol at hyfforddiant diogelu sylfaenol;
- Dylai pob aelod o Gyrff Llywodraethu ddilyn hyfforddiant diogelu ac amddiffyn plant perthnasol o fewn eu tymor cyntaf yn y rôl. Bydd hyn yn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth sydd ei hangen i gyflawni eu swyddogaethau a deall eu cyfrifoldebau diogelu ehangach. Dylai aelodau'r Corff Llywodraethu gwblhau'r modiwlau sy'n trafod cadw dysgwyr yn ddiogel fel gofyniad isaf, sy'n cynnwys Diogelu, VAWDASV, Caethwasiaeth Fodern a Prevent. Mae'r rhain yn helpu pob aelod staff mewn lleoliadau addysg i ddeall eu cyfrifoldebau diogelu fel y nodir yn y canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel.

### 4.3 Cyfrifoldebau'r Llywodraethwr Dynodedig ar gyfer Diogelu

Mae'r Corff Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith yn yr ysgol ar gyfer diogelu plant a monitro cydymffurfiaeth yr ysgol â nhw. Argymhellir bod gan bob corff llywodraethu lywodraethwr enwebedig ar gyfer amddiffyn plant, er mwyn hybu pwysigrwydd diogelu ac amddiffyn plant. Bydd y llywodraethwr amddiffyn plant yn cefnogi ac yn helpu'r Corff Llywodraethu i gael gwell dealltwriaeth a gwybodaeth am ddarpariaeth amddiffyn a diogelu plant yr ysgol.

Dylai ysgolion nodi llywodraethwr dynodedig ar gyfer diogelu, er mwyn, er enghraifft:

- Cadarnhau bod gan yr ysgol Bolisi Diogelu sy'n gyson â Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019, ei fod yn cael ei adolygu'n flynyddol a'i fod ar gael yn ddidrafferth i bob aelod staff;
- Ymgyfarwyddo â Pholisi Diogelu'r ysgol, Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019 a chael y wybodaeth ddiweddaraf am fentrau amddiffyn a diogelu plant, yn genedlaethol ac yn lleol, gan Lywodraeth Cymru, y Consortiwm Rhanbarthol a'r Awdurdod Lleol;
- Sicrhau bod y Corff Llywodraethu yn cynnal adolygiad blynyddol o bolisïau a gweithdrefnau diogelu sy'n cynnwys ystyried sut mae ei gyfrifoldebau wedi cael eu cyflawni;
- Sicrhau bod gan yr ysgol weithdrefn disgyblu staff gyfredol a chytûn ar gyfer ymdrin â honiadau o gamymddwyn yn erbyn staff, gan gynnwys honiadau amddiffyn plant. Dylai hon gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys penodi ymchwilydd annibynnol, ac ystyried canllawiau Llywodraeth Cymru a gweithdrefnau rhyngasiantaethol y cytunwyd arnynt yn lleol;
- Ymgyfarwyddo â chanllawiau diogelu Estyn;
- Cwrdd yn ôl yr angen, drwy apwyntiad, gyda'r aelod staff dynodedig ar gyfer amddiffyn plant, er mwyn monitro effeithiolrwydd Polisi Diogelu'r ysgol;
- Gweithio gyda'r Llywodraethwr cyswllt Anghenion Dysgu Ychwanegol (os yw'n briodol);
- Helpu sicrhau bod yr ysgol yn gweithio'n dda gydag asiantaethau ac unigolion perthnasol;
- Helpu sicrhau bod yr ysgol yn cadw cofnodion cywir a bod y ffeil amddiffyn plant yn gyfredol;
- Bod yn ymwybodol o nifer y disgyblion yn yr ysgol sydd ar y gofrestr amddiffyn plant ar hyn o bryd;
- Gwirio bod staff a llywodraethwyr wedi cael hyfforddiant priodol a bod pob aelod staff a llywodraethwyr yn gwybod beth i'w wneud os oes ganddynt unrhyw bryderon amddiffyn plant;
- Sicrhau bod gweithdrefnau recriwtio diogel ar waith a bod gwiriadau priodol yn cael eu cynnal ar aelodau staff a gwirfoddolwyr newydd;
- Sicrhau bod agweddau ar ddiogelu yn cael eu hymgorffori o fewn y cwricwlwm;
- Diweddaru gwybodaeth am ddiogelu drwy fynd i sesiynau hyfforddi perthnasol i lywodraethwyr.

### 4.4 Cyfrifoldebau'r Pennaeth

Dylai Penaethiaid pob ysgol feithrin diwylliant meithringar yn yr ysgol a hybu cyfathrebu agored rhwng staff a myfyrwyr ynghylch materion diogelu. Rhaid i'r Pennaeth sicrhau bod yr holl staff (gan gynnwys athrawon cyflenwi a gwirfoddolwyr):

- yn rhoi'r polisïau a'r gweithdrefnau diogelu a fabwysiadwyd gan y Corff Llywodraethu ar waith yn llawn, ac yn eu dilyn;
- yn cael digon o amser ac adnoddau i allu cyflawni eu cyfrifoldebau, gan gynnwys cymryd rhan mewn

trafodaethau ar strategaeth a chyfarfodydd rhyngasiantaethol eraill, a chyfrannu at asesu plant;

- yn deall y gweithdrefnau ar gyfer diogelu plant ac yn teimlo y gallant godi pryderon am ymarfer gwael neu anniogel, a bod yn hyderus yr eir i'r afael â phryderon o'r fath yn brydlon mewn modd sensitif ac effeithiol yn unol â Gweithdrefnau Rhannu Pryderon mewn Ysgolion a Pholisi Enghreifftiol Llywodraeth Cymru. Fel rhan o'u proses sefydlu, dylent gael datganiad ysgrifenedig am bolisi a gweithdrefnau'r ysgol ac enw a manylion cyswllt yr Unigolyn Diogelu Dynodedig (UDD).

Yn ogystal, rhaid i'r Pennaeth benodi'r nifer priodol o Unigolion Diogelu Dynodedig a dirprwy Unigolion Diogelu Dynodedig ar gyfer eu lleoliad addysg, a sicrhau bod yr UDD:

- yn cael digon o amser ac adnoddau i gyflawni'r rôl yn effeithiol, a dylai hyn gael ei ddiffinio'n glir yn swydd-ddisgrifiad deiliad y swydd;
- yn gallu cael gafael ar y lefelau gofynnol o hyfforddiant a chefnogaeth i gyflawni'r rôl, gan gynnwys hyfforddiant diogelwch ar-lein;
- yn cael amser i fynd i gynadleddau achos a chyfarfodydd amlasiantaeth eraill, a darparu adroddiadau a chyngor iddynt, yn ôl yr angen;
- yn cael yr offer TG priodol i gyflawni'r rôl yn effeithiol.

### 4.5 Cyfrifoldebau'r Unigolyn Diogelu Dynodedig (UDD)

Rhaid i bob ysgol nodi UDD sydd â chyfrifoldeb arweiniol am reoli pob pryder sy'n ymwneud â diogelu. Rhaid i'r UDD fod ar gael i drafod pryderon sy'n ymwneud â diogelu; dylid cysylltu â'r unigolyn hwnnw, pan fo'n bosib, i drafod p'un a ddylid codi pryder sy'n ymwneud â diogelu gyda'r awdurdod lleol; a bydd yn rheoli unrhyw gamau gweithredu y mae angen eu cymryd ar unwaith er mwyn sicrhau bod yr unigolyn sy'n wynebu risg yn ddiogel rhag camdriniaeth. Dylai pob ymarferydd wybod â phwy y dylid cysylltu yn eu lleoliad addysg i gael cyngor, ac ni ddylent oedi cyn mynd i drafod eu pryderon, waeth pa mor ddibwys y mae'r pryderon hynny'n ymddangos.

Nid oes rhaid i'r UDD fod yn athro, ond rhaid iddo fod yn uwch aelod o dîm arwain yr ysgol, gyda'r statws a'r awdurdod o fewn y sefydliad i gyflawni dyletswyddau'r swydd, gan gynnwys neilltuo adnoddau ar gyfer materion diogelu a chyfarwyddo aelodau staff eraill. Gallai'r UDD hefyd fod yn benodiad unigol yn yr uwch dîm heb fod angen iddo gyflawni dyletswyddau eraill.

Rhaid bod gan bob UDD o leiaf un dirprwy sydd â'r un statws a chyfleoedd i ymgymryd â'r un hyfforddiant. Bydd nifer y dirprwyon yn dibynnu ar y lleoliad addysg, a dylai adlewyrchu faint o waith sydd yna i'w gyflawni a maint y lleoliad addysg. Dylai fod gan leoliadau addysg mwy dîm o staff sy'n cydweithio a dylai lleoliadau addysg â mwy nag un safle sicrhau bod UDD ar gael ar bob safle.

Dylai fod gan yr UDD y sgiliau a'r rhinweddau angenrheidiol ar gyfer y rôl, a fydd yn canolbwyntio'n gadarn ar gyfathrebu gyda dysgwyr a gweithwyr proffesiynol. Gall y rôl hon fod yn un heriol a bydd angen lefel benodol o arbenigedd, gwybodaeth, adnoddau a chefnogaeth.

Gellir dirprwyo'r cyfrifoldeb o ddelio ag achosion unigol i aelodau staff eraill, ond mae'n bwysig bod uwch aelod staff yn cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am y maes gwaith hwn. Dylid sicrhau bod yr UDD yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd a chanlyniad pob achos. Dylid sicrhau bod pob aelod staff sy'n ymgymryd â'r cyfrifoldebau hyn wedi cael hyfforddiant llawn a'u bod yn meddu ar y sgiliau priodol.

Mewn lleoliadau addysg lle ceir nifer uchel o bryderon ynghylch diogelu, dylid ystyried penodi UDD llawn amser gyda'r sgiliau a'r profiad perthnasol. Gallai trefniant amgen olygu dirprwyo'r cyfrifoldebau dydd i ddydd, gyda'r cyfrifoldeb cyffredinol yn disgyn ar yr UDD, fel y disgrifir uchod.

Dylai'r UDD gael cymorth a goruchwyliaeth ddigonol i ymgymryd â'r rôl yn effeithiol. Dylai'r trefniadau goruchwylio gefnogi'r UDD gydag effaith emosiynol y rôl a chynnig cyfleoedd i fyfyrio ar eu hymarfer. Gellid gwneud hyn ar sail unigol neu fel grŵp, ond dylid cynnig cyfle i'r UDD gael cymorth unigol os bydd angen.

Rhaid i'r UDD wybod sut i adnabod arwyddion cam-drin, esgeulustod a mathau eraill o niwed, boed hynny ar-lein neu beidio, a gwybod pryd mae'n briodol hysbysu'r awdurdod lleol (neu'r Heddlu os yw'r plentyn / plant mewn perygl uniongyrchol).

Mae rôl yr UDD yn cynnwys rhoi cyngor a chymorth i staff eraill, cadw cofnodion, gweithio gydag aelodau'r teulu neu ofalwyr, gwneud atgyfeiriadau at wasanaethau plant a mynychu cyfarfodydd statudol, yn ogystal â chysylltu â BDPGC a chydweithio ag asiantaethau eraill yn ôl yr angen. Nid rôl yr UDD yw ymchwilio i honiadau, ond rhaid iddynt roi gwybod i'r Pennaeth am bob pryder ynglŷn â diogelu a godir yn yr ysgol.

Dylai'r UDD hefyd ystyried sut y gellir ymdrin â materion sy'n ymwneud â diogelu'n ehangach a sicrhau y caiff mesurau ataliol eu mabwysiadu yn y lleoliad addysg.  Bydd y rhan hon o'r rôl yn cynnwys meithrin perthnasoedd gydag asiantaethau eraill, yn ogystal â sicrhau bod staff a dysgwyr yn ymwybodol o'r risgiau a sut i gael gafael ar gymorth. Bydd hyn yn rhan o ddull gweithredu a dysgu'r ysgol gyfan (neu'r lleoliad cyfan) drwy'r cwricwlwm newydd.

Bydd yr UDD yn gyfrifol am arferion, polisi, gweithdrefnau a datblygiad proffesiynol y lleoliad addysg mewn perthynas â diogelu ac amddiffyn plant, ac yn cydweithio ag asiantaethau eraill yn ôl yr angen. Dylai'r UDD sicrhau bod polisi diogelu'r ysgol yn cael ei ddiweddaru a'i adolygu bob blwyddyn, a chydweithio â'r corff llywodraethu mewn perthynas â hyn.

Yr UDD sy'n gyfrifol am sicrhau bod rhieni / gofalwyr yn gweld copïau o bolisi diogelu'r ysgol. Gall hyn helpu osgoi'r posibilrwydd o wrthdaro yn nes ymlaen drwy dynnu eu sylw at rôl yr ysgol a'r ffaith y gellir hysbysu'r awdurdod lleol o bryderon ynglŷn â diogelu. Bydd llawer o leoliadau addysg yn cynnwys gwybodaeth am hyn mewn cyfarfodydd sefydlu i rieni / gofalwyr newydd, yn eu prosbectws ac ar eu gwefan.

Dylai'r UDD sicrhau bod yr ysgol yn cwblhau Adnodd Archwilio Trefniadau Diogelu Cadw Dysgwyr yn Ddiogel, er mwyn cefnogi dull lleoliad cyfan o ddiogelu a chynnig meincnod i geisio parhau i wella dulliau a strwythurau diogelu yn ei erbyn. Dylid adolygu'r Adnodd Archwilio'n rheolaidd i sicrhau bod myfyrio, dysgu a diweddaru prosesau yn digwydd yn gyson yn yr ysgol. Gellir lawrlwytho'r Adnodd Archwilio drwy ddilyn y ddolen isod:

https://www.llyw.cymru-atodiad-3-adnodd-archwilio-trefniadau-diogelu.docx

**Sylwch – Gofynnir i holl ysgolion Conwy gyflwyno'r Adnodd Archwilio Trefniadau Diogelu i'r Awdurdod Lleol at ddibenion monitro bob blwyddyn.**

Mae'n arfer effeithiol i'r UDD ddarparu briff blynyddol a diweddariadau rheolaidd mewn cyfarfodydd staff ynghylch unrhyw faterion sy'n ymwneud â diogelu a/neu amddiffyn plant neu newidiadau i weithdrefnau lleol. Mae hyn yn sicrhau bod gan bob aelod staff y wybodaeth ddiweddaraf a'u bod yn cael eu hatgoffa'n rheolaidd o'u cyfrifoldebau yn ogystal â pholisïau a gweithdrefnau'r ysgol. Mae nifer o ysgolion yn ei gweld yn fuddiol trafod diogelu'n rheolaidd mewn cyfarfodydd staff er mwyn cadw lefelau ymwybyddiaeth yn uchel.

Dylai'r UDD gadw mewn cysylltiad â'r llywodraethwr dynodedig ar gyfer diogelu er mwyn i'r llywodraethwr dynodedig allu adrodd ar faterion diogelu, boed y mater yn un ar-lein neu fel arall, i'r Corff Llywodraethu.  Ni ddylai adroddiadau i'r Corff Llywodraethu ymwneud ag achosion amddiffyn plant penodol, ond yn hytrach dylent adolygu'r polisïau a gweithdrefnau diogelu. Mae'n arfer dda i'r llywodraethwr dynodedig a'r UDD gyflwyno'r adroddiad ar y cyd.

### 4.5 Cyfrifoldebau'r Holl Staff

Mae pob aelod staff yn gyfrifol am ddarparu amgylchedd diogel ac adnabod plant sy'n cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu eu niweidio, neu sy'n wynebu risg o hynny, waeth ble mae'n digwydd (ar-lein neu fel arall, ar safle'r lleoliad addysg neu y tu hwnt iddo).

Mae cyfrifoldeb wedyn ar bob aelod staff i gymryd camau priodol, gan gydweithio â gwasanaethau eraill yn ôl yr angen. Yn ogystal â gweithio gyda'r UDD, dylai aelodau staff fod yn ymwybodol y gellir gofyn iddynt helpu gweithwyr cymdeithasol i wneud penderfyniadau am blant unigol.

Dylai pob aelod staff fod yn ymwybodol o arwyddion cam-drin, esgeulustod a mathau eraill o niwed.  Gall arwyddion fod yn gorfforol ond yn aml maent yn fwy cynnil, fel newid mewn ymddygiad neu unigolyn yn mynd i'w gragen. Gall arwyddion bychain fod yn rhan o batrwm, felly mae'n bwysig na fydd staff yn diystyru unrhyw

beth fel rhywbeth nad yw'n berthnasol neu'n ddigon mawr. Os bydd pob aelod staff yn sôn wrth yr UDD am newidiadau neu arsylwadau, gall greu darlun o'r hyn na fyddai o bosib yn cael unrhyw sylw fel arall.

Pan fo gan aelodau staff bryderon bod plentyn yn wynebu risg o gael ei gam-drin, ei esgeuluso, neu unrhyw niwed arall, dylent godi'r rhain â'r UDD. **Nid yw hyn yn fater o ddewis yr unigolyn.** **Rhaid** i unrhyw un sy'n gweithio mewn lleoliad addysg ac a gyflogir gan awdurdod lleol, bwrdd neu ymddiriedolaeth iechyd lleol, yr heddlu neu'r gwasanaeth prawf, hysbysu'r awdurdod lleol os oes sail resymol dros gredu bod plentyn yn wynebu risg o gael ei gam-drin, ei esgeuluso neu unrhyw fath arall o niwed. Mae dyletswydd gyfreithiol arnoch i gofnodi a rhoi gwybod am eich pryderon ar y diwrnod pan godir yr honiad/pryder. Gwneir hyn drwy'r UDD fel arfer, ond rhaid i ddiogelwch y plentyn ddod gyntaf, felly efallai y bydd achosion yn codi pan fydd angen i staff gysylltu â'r Gwasanaethau Plant yn uniongyrchol os oes yna bryder uniongyrchol.

Atgoffir pob aelod staff na allant addo cyfrinachedd ar ôl i blentyn ddatgelu. Mae'n bwysig bod pob aelod staff yn ymdrin â hyn mewn modd sensitif ac yn egluro i'r plentyn bod rhaid iddynt roi gwybod i'r bobl briodol all helpu'r plentyn, ond mai dim ond wrth y rhai hynny sydd angen gwybod er mwyn gallu helpu y byddant yn dweud. Mae angen i staff ddeall y gallai'r plentyn fod wedi gorfod bod yn ddewr iawn i ddatgelu'r wybodaeth ac y gallent fod yn profi gwahanol emosiynau, gan gynnwys teimladau o euogrwydd, embaras, anffyddlondeb (os yw'r sawl sy'n cam-drin yn berson agos atynt) a gofid.

Dylai pryderon arwain at gymorth a chefnogaeth bob tro, naill ai drwy hysbysu'r gwasanaethau cymdeithasol, neu gymorth uniongyrchol drwy'r ysgol. Dylai'r UDD rannu'r wybodaeth ganlynol gyda'r aelod staff sy'n rhoi gwybod am y pryder a'r Pennaeth:

- y camau cychwynnol arfaethedig, gan gynnwys cyfeirio at wasanaethau eraill, neu na fydd unrhyw gamau pellach eu cael eu cymryd; a phwy fydd yn cymryd y camau.

## 5. GWEITHDREFNAU

Yma yn Ysgol Cerrigydrudion, byddwn yn dilyn Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019 a gymeradwywyd gan Fwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru, ochr yn ochr ag unrhyw ganllawiau a phrotocolau eraill a gymeradwywyd ac y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd. Yn unol â gweithdrefnau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 2020, bydd yr ysgol:

- Yn sicrhau bod pob aelod staff a phob llywodraethwr yn gwybod:
  - enw a rôl yr UDD, Arweinydd Dynodedig yr Awdurdod Lleol ar gyfer Diogelu Mewn Addysg a'r Llywodraethwr Dynodedig ar gyfer diogelu,
  - bod ganddynt gyfrifoldeb unigol am roi gwybod am blant sy'n wynebu risg a phryderon ynglŷn ag amddiffyn plant i'r Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Heddlu, o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt gyda Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru, a
  - sut i weithredu ar y pryderon hynny os nad yw'r UDD ar gael;

- Yn sicrhau bod pob aelod staff yn ymwybodol o'r angen i wylio am arwyddion o gam-drin ac esgeulustod a gwybod sut i ymateb i ddysgwr a allai ddatgelu ei fod yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso;

- Yn sicrhau bod aelodau staff sydd wedi'u cofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg yn ymwybodol o'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol ar gyfer y Sawl sydd wedi Cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg, a'r disgwyliad yn y Cod bod y sawl sydd wedi cofrestru yn rhoi sylw i ddiogelwch a lles dysgwyr yn eu gofal a chynnwys cysylltiedig;

- Yn sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn deall y cyfrifoldeb a roddir ar yr ysgol a'r staff am ddiogelu ac amddiffyn plant drwy nodi ei rwymedigaethau ym mhrosbectws yr ysgol;

- Yn darparu hyfforddiant Ymwybyddiaeth Sylfaenol o Ddiogelu (Lefel 1) i bob aelod staff er mwyn sicrhau eu bod yn:

- ➢ deall eu cyfrifoldeb personol,
- ➢ ymwybodol o'r gweithdrefnau lleol y cytunwyd arnynt a'u dyletswydd i ymateb,
- ➢ ymwybodol o'r angen i fod yn wyliadwrus wrth nodi achosion o gam-drin ac esgeuluso,
- ➢ gwybod sut i gefnogi plentyn sy'n datgelu achos o gam-drin neu esgeulustod,
- ➢ deall y rhan y gall ymddygiad ar-lein ei chwarae yn yr holl agweddau uchod;

- Yn hysbysu tîm gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol os:

  - ➢ yw dysgwr ar y gofrestr amddiffyn plant yn cael ei wahardd, naill ai am gyfnod penodol neu'n barhaol, neu os
  - ➢ yw dysgwr ar y gofrestr amddiffyn plant yn absennol o'r ysgol heb esboniad am fwy na dau ddiwrnod (neu un diwrnod ar ôl penwythnos);

- Yn gweithio i ddatblygu cysylltiadau effeithiol gydag asiantaethau perthnasol a chydweithredu yn ôl y gofyn gyda'u hymholiadau mewn perthynas â materion amddiffyn plant, gan gynnwys mynd i gynadleddau amddiffyn plant cychwynnol ac adolygiadol a grwpiau craidd, a chyflwyno adroddiadau i'r cynadleddau;

- Yn cadw cofnodion o bryderon am blant (gan nodi'r dyddiad, y digwyddiad a'r camau a gymerwyd), hyd yn oed os nad oes angen atgyfeirio'r mater at yr awdurdod lleol ar unwaith;

- Yn sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel a dan glo (dylid cyfyngu mynediad atynt os defnyddir system electronig i gofnodi pryderon);

- Yn cadw at y gweithdrefnau a nodir ym Mholisi Disgyblu'r Ysgol;

- Yn sicrhau y caiff yr holl weithdrefnau recriwtio a dethol eu gwneud yn unol â chanllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel Llywodraeth Cymru.

### 5.1 Cofnodi Pryderon

Gall amheuon bod plentyn yn wynebu risg fod ar ffurf pryderon yn hytrach na ffeithiau hysbys. Gall pryderon am blentyn sy'n wynebu risg godi mewn gwahanol gyd-destunau, gan gynnwys os yw plentyn eisoes yn hysbys i'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n bwysig bod y pryderon hyn yn cael eu cofnodi a'u monitro'n briodol gan yr aelod staff a/neu'r UDD. Mae hyn yn sicrhau bod darlun cydlynol yn bodoli o'r tebygolrwydd o gamdriniaeth, esgeulustod a mathau eraill o niwed, ac yn rhoi cymorth ar gyfer hysbysu'r gwasanaethau cymdeithasol a chymryd unrhyw gamau dilynol.

Fel y mae Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 2020 yn ei nodi, *'Rhaid bod gan bob lleoliad addysg system addas ar waith er mwyn helpu i fynd ati'n effeithiol i gasglu data ar blant yr amheuir eu bod yn wynebu risg'*.Ceir nifer o becynnau meddalwedd i helpu ysgolion gasglu data'n fewnol am bryderon diogelu sy'n ymwneud â phlant. Gall y pecynnau hyn helpu staff i wneud cofnod o bryderon a helpu'r UDD i nodi patrymau o gamdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed O fis Medi 2025 ymlaen, bydd Ysgol Cerrigydrudion yn defnyddio system CPOMS.

### 5.2 Adrodd

Mae cadw cofnodion cywir, cryno a chlir mewn iaith syml yn rhan hanfodol o atebolrwydd cyflogai neu weithiwr proffesiynol unigol, ac yn sail i arfer da ar gyfer amddiffyn plant. Rhaid bod gan bob asiantaeth sy'n ymwneud â diogelu a hybu lles plant bolisïau a gweithdrefnau sy'n pennu trefniadau ar gyfer cadw, storio a dinistrio cofnodion achos electronig a phapur. Dylai'r polisïau sicrhau bod cofnodion achos yn cael eu storio'n ddiogel a bod modd cael gafael arnynt yn ôl yr angen.

Pan fydd plentyn wedi datgelu unrhyw beth neu pan nodir pryder, dylai'r aelod staff neu'r gwirfoddolwr:

- ➢ wneud nodiadau bras cyn gynted ag sy'n bosib ar ôl y sgwrs / arsylwad;

- cadw gafael ar y nodiadau gwreiddiol rhag ofn y bydd eu hangen yn y llys;
- cofnodi'r amser, dyddiad, lleoliad ac unrhyw ymddygiad dieiriau amlwg a'r geiriau a ddefnyddiodd y plentyn;
- os bydd angen, llunio diagram i ddangos lleoliad unrhyw gleisiau neu anaf arall;
- cofnodi datganiadau a sylwadau yn hytrach na dehongliadau neu dybiaethau;
- rhoi'r holl gofnodion i'r Unigolyn Diogelu Dynodedig.

Fel yr amlinellir uchod, **rhaid** hysbysu'r gwasanaethau cymdeithasol y gallai plentyn fod yn wynebu risg ar-lein neu fel arall cyn gynted ag y caiff pryder ei nodi; rhaid i hyn fod o fewn 24 awr. Y tu allan i oriau swyddfa, **rhaid** hysbysu gwasanaeth dyletswydd brys y gwasanaethau cymdeithasol neu'r Heddlu.

Lle bo'r hysbysu'n digwydd wyneb yn wyneb neu dros y ffôn, **rhaid** ei gadarnhau'n ysgrifenedig dros e-bost i ddechrau, gan gyflwyno'r adroddiad terfynol o fewn 24 awr.

Pan fydd un ar gael, **dylid** hysbysu'n defnyddio Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaeth Gwasanaethau Plant Gogledd Cymru. **Rhaid** cynnwys gwybodaeth graidd/sylfaenol, yr hyn sy'n peri pryder ac unrhyw wybodaeth berthnasol gan yr asiantaeth.

Gallwch gael gafael ar ffurflen atgyfeirio Gogledd Cymru drwy ddilyn y ddolen ganlynol: https://www.bwrddiogelugogleddcymru.cymru/ffurflen-atgyfeirio-gogledd-cymru-plant-a-theuluoedd/https://www.northwalessafeguardingboard.wales/north-wales-referral-form-children-and-families, a dylid ei hanfon i'r cyfeiriad e-bost hwn: dyletswydd@conwy.gov.uk.

Dylai unrhyw un sy'n gweithio mewn lleoliad addysg fod yn ymwybodol nad oes modd aros yn ddienw os byddant yn rhoi gwybod am achos.

Nid rôl yr UDD yw ymchwilio i honiadau, ond efallai y bydd adegau pan fydd y Gwasanaethau Cymdeithasol/yr Heddlu yn gofyn i aelod staff egluro'r hyn a gafodd ei ddweud gan blentyn. Gwneir hyn er mwyn egluro manylion pwysig; bydd hyn yn helpu'r unigolyn sy'n gwneud y penderfyniad mewn perthynas â chyrraedd y trothwy ac yn yr un modd, yn cadarnhau os yw niwed arwyddocaol yn bryder gwirioneddol.

### 5.3 Cyfrinachedd

Ni fydd y Pennaeth a/neu'r UDD yn datgelu unrhyw wybodaeth am ddysgwr i aelodau staff eraill oni bai bod angen iddynt gael gwybod. Mae dyletswydd cyfrinachedd yn berthnasol i rannu gwybodaeth gydag asiantaethau eraill er mwyn diogelu plant.

Nid yw dyletswydd cyfrinachedd yn absoliwt a gellir ei dorri os yw hynny er budd pennaf y plentyn ac er budd ehangach y cyhoedd. Os yw gweithwyr proffesiynol yn pennu fod datgelu'n angenrheidiol i amddiffyn y plentyn neu blant eraill rhag wynebu risg o niwed difrifol, gellir torri cyfrinachedd.

Rhaid i bob aelod staff ddeall na allant wneud addewid i'r plentyn i gadw cyfrinachau a allai beryglu lles neu ddiogelwch y plentyn. Mae cyfrifoldeb proffesiynol ar staff i rannu gwybodaeth berthnasol am amddiffyn dysgwyr gyda'r asiantaethau statudol dynodedig pan fo plentyn yn wynebu pryderon o ran ei les.

Mae'n bwysig bod pob aelod staff yn ymdrin â hyn mewn modd sensitif ac yn egluro i'r plentyn bod rhaid iddynt roi gwybod i'r bobl briodol all helpu'r plentyn, ond mai dim ond wrth y rhai hynny sydd angen gwybod er mwyn gallu helpu y byddant yn dweud.

Dylai staff dawelu meddwl y plentyn a dweud wrtho na fydd eraill yn yr ysgol yn cael gwybod am ei sefyllfa. Mae angen i staff ddeall y gallai'r plentyn fod wedi gorfod bod yn ddewr iawn i ddatgelu'r wybodaeth ac y gallent fod yn profi gwahanol emosiynau, gan gynnwys teimladau o euogrwydd, embaras, anffyddlondeb (os yw'r sawl sy'n cam-drin yn berson agos atynt) a gofid.

### 5.4 Cymryd Rhan yn y Broses Amddiffyn Plant

Gellir gofyn i unrhyw aelod staff sy'n rhoi gwybod am achos amddiffyn plant gwblhau rhai o'r tasgau canlynol, neu bob un ohonynt. Dylai'r ysgol sicrhau bod gan staff ddigon o amser ac adnoddau angenrheidiol eraill i gyflawni'r tasgau hyn yn effeithiol a dylai staff fod yn barod ac yn fodlon:

- cynorthwyo ag ymholiadau amddiffyn plant o dan adran 47 Deddf Plant 1989;
- mynd i'r gynhadledd amddiffyn plant;
- darparu adroddiad ysgrifenedig ar gyfer y gynhadledd amddiffyn plant;
- cyfrannu at yr asesiadau cychwynnol a'r asesiadau craidd;
- mynd i gyfarfodydd grŵp craidd.

Os bydd plentyn yn destun cynllun amddiffyn gofal a chymorth, dylid cynnwys yr UDD yn y broses o baratoi'r cynllun. Dylid nodi'n glir beth yw rôl a chyfrifoldebau'r lleoliad addysg wrth gyfrannu at gamau gweithredu i ddiogelu'r plentyn a hybu eu lles.

Rhaid i Fwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru gynnal Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS) os bydd digwyddiad arwyddocaol lle mae achos o gam-drin neu esgeuluso plentyn yn hysbys neu'n cael ei amau. Efallai y bydd angen i ysgolion fod yn rhan o'r broses ADUS, gan weithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Plant ac Addysg mewn amgylchiadau o'r fath.

## 6. RHANNU GWYBODAETH

Mae rhannu gwybodaeth yn rhan allweddol o arferion da yn y maes diogelu. Dylai'r holl staff sy'n gweithio yn Ysgol Cerrigydrudion fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau dan ddeddfwriaeth diogelu data'r DU. Rhaid i bob ysgol a choleg a gynhelir yn y DU benodi swyddog diogelu data.

Rhaid i ysgolion rannu gwybodaeth yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018, y cyfeirir atynt fel deddfwriaeth diogelu data'r DU. Un o'r amgylchiadau penodol sy'n darparu ar gyfer rhannu gwybodaeth yw atal camdriniaeth neu niwed difrifol i eraill. Nid yw'r GDPR na Deddf Diogelu Data 2018 yn rhwystro, nac yn cyfyngu ar, rannu gwybodaeth er dibenion cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel.

Un thema allweddol sy'n deillio o adolygiadau diogelu unedig sengl yw'r angen am well cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau. Pan na rennir gwybodaeth mewn ffordd brydlon ac effeithiol, mae'n bosib na fydd digon o wybodaeth ar gael i wneud penderfyniadau am sut i ymateb, a gallai hyn arwain at arfer diogelu gwael a gadael plant yn agored i niwed difrifol.

Mewn ysgolion, cyfrifoldeb yr UDD yw cadw cofnodion ysgrifenedig manwl, cywir a diogel am blant sy'n destun pryderon diogelu. Mae'r cofnodion hyn yn gyfrinachol a dylid eu cadw ar wahân i gofnodion eraill y dysgwr. Dylent gynnwys cronoleg o bryderon, achosion o hysbysu, cyfarfodydd, galwadau ffôn a negeseuon e-bost.

Pan fydd plentyn yn gadael yr ysgol, rhaid i'r UDD sicrhau bod copi o unrhyw gofnodion amddiffyn plant yn cael eu rhoi i'r ysgol newydd ar unwaith, ond gan eu trosglwyddo ar wahân i brif ffeil y dysgwr er mwyn sicrhau cyfrinachedd. Rhaid hysbysu'r Gwasanaeth Lles Addysg hefyd. Bydd hyn yn sicrhau bod yr ysgol newydd yn ymwybodol o unrhyw risgiau i'r plentyn er mwyn gallu eu helpu fel bo'n briodol. Bydd cyfathrebu effeithiol rhwng unigolion diogelu dynodedig y ddwy ysgol yn bwysig i sicrhau nad yw'r plentyn yn wynebu risg yn ystod y cyfnod trosglwyddo.

Mae Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) yn amlinellu'r cyfrifoldebau sefydliadol mewn perthynas â rhannu gwybodaeth sensitif. https://www.waspi.llyw.cymru/

Bydd pob aelod staff Ysgol Cerrigydrudion yn ceisio cyngor gan yr UDD a/neu'r Pennaeth mewn perthynas â rhannu gwybodaeth. Dylai UDD arfer synnwyr cyffredin wrth wneud penderfyniadau ynghylch pa wybodaeth i'w rhannu, a dilyn gweithdrefnau'r sefydliad. Yr ystyriaeth bwysicaf yw p'un a yw rhannu gwybodaeth yn debygol o helpu i ddiogelu ac amddiffyn y plentyn.

### 6.1 Egwyddorion

Mae yna nifer o egwyddorion a all helpu pob aelod staff ar y cyd â’r UDD wrth wneud penderfyniadau am rannu gwybodaeth:

**Angenrheidiol a chymesur** – Wrth wneud penderfyniadau ynghylch pa wybodaeth i’w rhannu, dylech ystyried faint o wybodaeth rydych chi angen ei rhyddhau. Elfen allweddol y GDPR a Deddf Diogelu Data 2018 yw peidio â rhannu mwy o ddata nag sy’n angenrheidiol, a dylech ystyried yr effaith a gaiff datgelu’r wybodaeth ar destun y wybodaeth ac unrhyw bobl eraill. Rhaid i'r wybodaeth fod yn gymesur â'r angen a lefel y risg.

**Perthnasol** – Dim ond gwybodaeth sy’n berthnasol i’r dibenion y dylid ei rhannu gyda’r rhai sydd ei hangen. Mae hyn yn caniatáu i eraill wneud eu gwaith yn effeithiol a gwneud penderfyniadau gwybodus.

**Digonol** – Dylai’r wybodaeth fod yn ddigonol ar gyfer ei diben. Dylai’r wybodaeth fod o’r ansawdd iawn er mwyn sicrhau y gellir ei deall a dibynnu arni.

**Cywir** - Dylai’r wybodaeth fod yn gywir ac yn gyfredol a dylai wahaniaethu'n glir rhwng ffeithiau a barn. Os yw’r wybodaeth yn hanesyddol, dylid esbonio hyn.

**Prydlon** – Dylid rhannu gwybodaeth yn brydlon er mwyn lleihau’r risg o golli cyfleoedd i helpu ac amddiffyn plentyn. Mae prydlondeb yn allweddol mewn sefyllfaoedd brys ac efallai na fydd yn briodol ceisio caniatâd i rannu gwybodaeth os gallai hynny achosi oedi, ac felly roi plentyn neu berson ifanc mewn mwy o berygl o niwed. Dylai ymarferwyr sicrhau bod digon o wybodaeth yn cael ei rhannu, yn ogystal ag ystyried y brys i'w rhannu.

**Diogel** – Lle bynnag y bo modd, dylid rhannu gwybodaeth mewn ffordd briodol a diogel. Rhaid i ymarferwyr ddilyn polisi eu sefydliad ar ddiogelwch bob amser wrth drin gwybodaeth bersonol.

**Cofnodi** – Dylid gwneud cofnod o benderfyniadau rhannu gwybodaeth, p’un a benderfynir rhannu ai peidio. Os penderfynir rhannu, dylid nodi’r rhesymau gan gynnwys pa wybodaeth sydd wedi’i rhannu a gyda phwy, yn unol â gweithdrefnau’r sefydliad. Os penderfynir peidio â rhannu, mae’n arfer da cofnodi’r rhesymau dros y penderfyniad hwn a’u trafod gyda’r sawl sydd wedi ceisio’r wybodaeth. Yn unol â pholisi cadw pob sefydliad, ni ddylid cadw’r wybodaeth yn hwy nag sydd angen. Mewn rhai amgylchiadau prin, gall hyn fod am gyfnod amhenodol, ond os felly, dylid trefnu proses adolygu yn rheolaidd er mwyn sicrhau nad yw data’n cael ei gadw lle nad oes angen gwneud hynny.

I gael rhagor o arweiniad, darllenwch: Gweithio Gyda’n Gilydd i Ddiogelu Pobl:
https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-01/gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-cod-ymarfer-diogelu_0.pdf

## 7. HELPU UNIGOLION SY’N WYNEBU RISG

Yn Ysgol Cerrigydrudion rydym yn cydnabod y gall plant sy’n wynebu risg, sy’n cael eu cam-drin neu sy’n dyst i drais gael eu heffeithio’n andwyol gan hyn. Efallai mai’r ysgol yw’r unig elfen sefydlog, ddiogel a rhagweladwy ym mywydau’r plant sy’n wynebu risg. Serch hynny, pan fyddant yn yr ysgol gall eu hymddygiad fod yn heriol a herfeiddiol neu gallant fynd i’w cragen.

Bydd yr ysgol yn ceisio cefnogi’r dysgwr drwy’r canlynol:

- y deunydd a gaiff ei gynnwys yn y cwricwlwm i annog hunan-barch a hunan-gymhelliant;
- ethos yr ysgol, sy’n hyrwyddo amgylchedd cadarnhaol, cefnogol a diogel ac yn rhoi ymdeimlad o gael

eu gwerthfawrogi i'r dysgwyr;

- polisi ymddygiad yr ysgol, sydd â'r nod o gefnogi disgyblion diamddiffyn yn yr ysgol. Bydd yr holl staff yn cytuno ar ddull cyson o weithredu sy'n canolbwyntio ar ymddygiad y plentyn ond nad yw'n amharu ar ymdeimlad yr unigolyn o hunan-werth. Bydd yr ysgol yn ceisio sicrhau bod y dysgwr yn gwybod bod rhai mathau o ymddygiad yn annerbyniol ond eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac na fyddant yn cael eu beio am unrhyw gam-drin sydd wedi digwydd;
- cysylltu ag asiantaethau eraill sy'n cefnogi'r dysgwr, fel swyddogion yr awdurdod lleol, gan gynnwys y Gwasanaeth Seicoleg Addysgol, Cymorth Meithrin neu'r Gwasanaeth Lles Addysg - Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc a gwasanaethau eirioli;
- cadw cofnodion a hysbysu'r Awdurdod Lleol cyn gynted ag y bydd pryder yn codi eto;
- pan fydd dysgwr ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn gadael, byddwn yn trosglwyddo gwybodaeth i'r darparwr newydd ar unwaith ac yn rhoi gwybod i'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

### 7.1 Gwrth-fwlio

Dan Ddeddf Plant 1989, dylid mynd i'r afael ag achos o fwlio fel pryder amddiffyn plant lle mae 'achos rhesymol i amau fod plentyn yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed sylweddol'. Mewn achos o'r fath, dylai staff roi gwybod am eu pryderon i'r UDD.

Hyd yn oed lle nad ystyrir bod diogelu'n broblem, efallai y bydd angen i ysgolion ddefnyddio ystod o wasanaethau allanol i gefnogi'r disgybl sy'n cael ei fwlio, neu fynd i'r afael ag unrhyw broblem sylfaenol sydd wedi cyfrannu at fwlio gan blentyn.

Yn Ysgol Cerrigydrudion, rydym wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd diogel a gofalgar i bawb. Ni fyddwn yn goddef bwlio ar unrhyw ffurf.

Caiff dogfen Llywodraeth Cymru, 'Hawliau, Parch, Cydraddoldeb: canllawiau statudol ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir' (2019) ei hadlewyrchu yn ein Polisi Gwrth-fwlio sydd i'w weld ar wefan yr ysgol.

### 7.2 Cyswllt Corfforol gyda Myfyrwyr, gan gynnwys Ataliaeth

Dan adran 93 Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 gall pob aelod staff ysgol ddefnyddio'r cyfryw rym ag sy'n rhesymol dan yr amgylchiadau er mwyn atal plentyn neu berson ifanc rhag gwneud, neu barhau i wneud, unrhyw un o'r canlynol:

- cyflawni unrhyw drosedd (neu, yn achos dysgwr sydd o dan oed cyfrifoldeb troseddol, rhywbeth a fyddai'n drosedd petai dysgwr hŷn yn ei gyflawni)
- achosi anaf personol i unrhyw unigolyn (gan gynnwys hunan-niwed i'r dysgwr) neu achosi difrod i eiddo unrhyw unigolyn
- fod yn niweidiol i drefn a disgyblaeth dda yn yr ysgol neu ymhlith dysgwyr sy'n derbyn addysg yn yr ysgol, yn ystod sesiwn addysgu neu fel arall.

Nid yw'r gyfraith yn diffinio pryd y mae'n rhesymol defnyddio grym. Bydd hynny'n dibynnu bob amser ar yr union amgylchiadau mewn achos penodol. Er mwyn ei farnu'n gyfreithiol, byddai'n rhaid i'r grym a ddefnyddir fod yn gymesur â'r canlyniadau y mae'n bwriadu eu hatal. Dylid defnyddio'r grym lleiaf sydd ei angen i sicrhau'r canlyniad a fwriedir. Ni ellid cyfiawnhau defnyddio grym i atal camymddwyn dibwys.

Caiff Ymyrraeth Gorfforol ac Ataliad ei wneud fel arfer gan staff sydd wedi'u hyfforddi mewn gweithdrefnau priodol. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau eithriadol, gall unrhyw aelod staff gamu i mewn fel y nodir uchod. Mae'r ysgol yn disgwyl i bob ymdrech gael ei gwneud i dawelu'r sefyllfa cyn defnyddio ymyrraeth gorfforol. Mae cefnogaeth briodol ar gael ar gyfer dysgwyr a staff sydd ynghlwm ag ymyrraeth gorfforol.

Darllenwch ein Polisi Diogelu Corfforaethol i gael rhagor o wybodaeth:
https://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Social-Care-and-Wellbeing/Im-worried-about-somebody/assets/documents/Corporate-safeguarding-policy-2022.pdf

### 7.3 Plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Mae plant anabl a phlant sydd ag amhariad ar y synhwyrau yn wynebu risg gynyddol o gamdriniaeth, esgeulustod neu niwed, o'u cymharu â'u cyfoedion. Dylai staff ddeall bod plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn wynebu risg gynyddol a hefyd yn llai tebygol o gael y gefnogaeth a'r amddiffyniad y maent eu hangen pan maent wedi cael eu cam-drin. Mae angen i staff sy'n gweithio gyda phlant ag anghenion dysgu ychwanegol, fel anabledd dwys a lluosog, amhariad ar y synhwyrau neu broblem emosiynol neu ymddygiad, fod yn arbennig o sensitif i arwyddion o gam-drin a darparu unrhyw drefniadau diogelu ychwanegol sydd eu hangen i'w hamddiffyn.
Darllenwch y ddogfen Anghenion Dysgu Ychwanegol i gael rhagor o wybodaeth. Mae hon i'w gweld yn https://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Education-and-Families/Assets/documents/ALN-Leaflet.pdf

## 8. CYFRIFOLDEBAU DIOGELU MEWN AMGYLCHIADAU PENODOL

### 8.1 Caethwasiaeth Fodern

Mae caethwasiaeth fodern yn cynnwys masnachu mewn pobl a chaethwasiaeth, caethiwed a llafur gorfodol. Mewn achosion masnachu mewn pobl, gall camfanteisio ddigwydd ar sawl ffurf, gan gynnwys: camfanteisio'n rhywiol, llafur gorfodol, caethwasiaeth, caethwasanaeth, troseddu gorfodol a thynnu organau.

Mae Awdurdodau Lleol yn Sefydliadau sy'n Ymatebwyr Cyntaf a, dan Adran 52 Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015, mae dyletswydd statudol arnynt i roi gwybod i'r Swyddfa Gartref pan fyddant yn amau y gallai unigolyn fod yn ddioddefwr caethwasiaeth fodern neu fasnachu mewn pobl. Gwneir hyn drwy atgyfeirio dioddefwr at y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol neu drwy gwblhau hysbysiad i'r Swyddfa Gartref pan nad yw dioddefwr sy'n oedolyn yn rhoi caniatâd i atgyfeirio.

Mae caethwasiaeth fodern yn ffurf ar gam-drin plant a dylid dilyn gweithdrefnau diogelu / amddiffyn plant arferol bob amser mewn perthynas ag unrhyw ddioddefwr posib. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon bod plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg yn destun camfanteisio o unrhyw fath i'r UDD ar unwaith, a gweithredu yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Os credwch chi fod plentyn neu oedolyn yn wynebu risg uniongyrchol o niwed, dylech gysylltu â'r Heddlu.

Darllenwch GANLLAW YMARFER CYMRU GYFAN: 'Diogelu plant a all fod wedi'u masnachu' i ddysgu am arwyddion masnachu a chamfanteisio:
https://diogelu.cymru/cy/chi-i/chi-i-c6/c6-p3/

Gall y canllawiau canlynol: *Modern Slavery – Statutory Guidance for England and Wales Home Office* hefyd ddarparu gwybodaeth fuddiol; dilynwch y ddolen isod:
https://assets.publishing.service.gov.uk/media/67812b3b00e3d719f19217eb/Modern+Slavery+Statutory+Guidance+_EW_+and+Non-Statutory+Guidance+_SNI_+v3.12.pdf

### 8.2 Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

Mae cam-fanteisio'n rhywiol ar blant yn ffurf ar gam-drin rhywiol sy'n cynnwys elfen o gyfnewid. Gall unrhyw blentyn ddioddef camfanteisio rhywiol, waeth beth fo'u rhywedd, ethnigrwydd neu rywioldeb. Gall camfanteisio'n rhywiol ar blant ddigwydd ar sawl ffurf, o berthynas lle mae pawb i'w gweld yn cydsynio ac mae rhyw yn cael ei gyfnewid am serch neu anrhegion, hyd at droseddu cyfundrefnol difrifol gan gangiau a grwpiau. Yr hyn sy'n peri iddo fod yn gamfanteisio yw'r anghydbwysedd o ran pŵer sydd yn y berthynas. Mae gan y sawl sy'n camfanteisio wastad ryw fath o bŵer dros y dioddefwr, sy'n cynyddu wrth i'r berthynas gamfanteisiol ddatblygu.

Mae cam-fanteisio'n rhywiol yn cynnwys gwahanol raddau o orfodi, brawychu neu ddenu, gan gynnwys pwysau dieisiau gan gyfoedion i gael rhyw a bwlio rhywiol, a gall fod yn rhan o ddarlun cymhleth o faterion diogelu sy'n cydberthyn. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig cydnabod nad yw pob person ifanc sy'n dioddef camfanteisio rhywiol yn dangos unrhyw arwyddion allanol o gam-drin o'r fath.

Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon bod plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg yn destun camfanteisio o unrhyw fath i'r Unigolyn Diogelu Dynodedig ar unwaith, a gweithredu yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Os credwch chi fod plentyn yn wynebu risg uniongyrchol o niwed, dylech gysylltu â'r Heddlu.

Darllenwch GANLLAW YMARFER CYMRU GYFAN: 'Diogelu plant rhag camfanteisio'n rhywiol ar blant' i gael mwy o wybodaeth: https://diogelu.cymru/chi/c6/c6.p10.html

### 8.3 Camfanteisio Troseddol ar Blant

Mae Camfanteisio Troseddol ar Blant yn gyffredin mewn gangiau llinellau sirol pan fydd unigolyn neu grŵp yn manteisio ar anghydbwysedd pŵer i orfodi, rheoli, twyllo neu ddylanwadu ar blentyn neu berson ifanc dan 18 oed. Efallai y camfanteisiwyd yn droseddol ar y dioddefwr hyd yn oed os yw'r gweithgaredd yn ymddangos yn gydsyniol. Nid yw Camfanteisio Troseddol ar Blant bob amser yn cynnwys cyswllt corfforol; gall hefyd ddigwydd trwy ddefnyddio technoleg. Mae Camfanteisio Troseddol ar Blant yn cynnwys sawl math o gamfanteisio, gan gynnwys llafur gorfodol, dwyn gorfodol, twyll budd-daliadau, troseddau meddiangar, trin a chynhyrchu cyffuriau ac achosion llinellau sirol.

Os oes gan aelod staff unrhyw bryderon bod plentyn yn dioddef o Gamfanteisio Troseddol, dylid eu hatgyfeirio at yr UDD. Os credwch chi fod plentyn yn wynebu risg uniongyrchol o niwed, dylech gysylltu â'r Heddlu.

Darllenwch GANLLAW YMARFER CYMRU GYFAN: 'Diogelu Plant rhag Camfanteisio Troseddol ar Blant' i gael rhagor o wybodaeth: https://diogelu.cymru/cy/chi-i/chi-i-c6/c6-p1/

### 8.4 Achosion o Gam-drin ac Ymddygiad Rhywiol Niweidiol rhwng Cyfoedion

Gall cam-drin rhywiol ddigwydd rhwng plant waeth beth fo'u hoedran na'u rhyw, ac mae iddo sawl ffurf mewn continwwm sy'n amrywio o aflonyddu rhywiol i gam-drin rhywiol drwy gyswllt corfforol, gan gynnwys cam-fanteisio rhywiol ac ymddygiad rhywiol niweidiol rhwng cyfoedion. Mae cam-drin rhywiol rhwng cyfoedion yn golygu cam-drin ymysg plant o oedrannau/grwpiau blwyddyn tebyg, tra bydd gwahaniaeth mawr yn oedran y bobl dan sylw mewn mathau eraill o ymddygiad rhywiol niweidiol. Mae ymddygiad rhywiol plant yn bodoli ar gontinwwm eang, o'r hyn sy'n normal ac yn ddisgwyliedig yn ddatblygiadol i'r hyn sy'n amhriodol, yn broblemus, yn gamdriniol ac yn dreisgar. Mae angen i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant mewn lleoliadau addysg ddeall y continwwm hwn o ymddygiadau er mwyn sicrhau y gallant ymyrryd yn briodol.

Darllenwch Adnodd Goleuadau Traffig Brook i gael rhagor o wybodaeth:
https://proceduresonline.com/trixcms2/media/14391/brook_traffic_light_tool.pdf

Mae gwybodaeth i rieni a gofalwyr gan y Lucy Faithful Foundation i'w gweld drwy ddilyn y ddolen isod:
https://www.parentsprotect.co.uk/traffic-light-tools.htm

Gellir diffinio Ymddygiad Rhywiol Niweidiol fel: ymddygiad rhywiol a fynegir gan blant a phobl ifanc dan 18 oed sy'n amhriodol yn ddatblygiadol, a allai fod yn niweidiol tuag atynt eu hunain neu at eraill, neu fod yn gamdriniol tuag at blentyn, person ifanc neu oedolyn. Mae'r diffiniad hwn o Ymddygiad Rhywiol Niweidiol yn cynnwys ymddygiad â chyswllt corfforol ac ymddygiadau digyswllt (meithrin perthynas amhriodol, arddangosiaeth, llygadu a secstio neu recordio delweddau o weithredoedd rhywiol drwy ffonau clyfar neu apiau cyfryngau cymdeithasol). Dylid ystyried plant sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol yn blant yn gyntaf oll, a dylid ystyried eu hanghenion gofal a chymorth yn yr un ffordd ag unrhyw blentyn arall.

Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon bod plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg yn destun camfanteisio o unrhyw fath i'r UDD ar unwaith, a gweithredu yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Os credwch chi fod plentyn yn wynebu risg uniongyrchol o niwed, dylech gysylltu â'r Heddlu.

Darllenwch GANLLAW YMARFER CYMRU GYFAN: 'Diogelu plant lle mae pryderon ynghylch ymddygiad rhywiol niweidiol' i gael rhagor o wybodaeth: https://diogelu.cymru/cy/chi-i/chi-i-c6/c6-p7/

Mae'r 'Canllawiau i leoliadau addysg am gam-drin rhywiol, camfanteisio ac ymddygiad rhywiol niweidiol gan gyfoedion' yn cynnig adnoddau ymarferol i atal ac ymateb i achosion o gam-drin rhywiol, camfanteisio ac ymddygiad rhywiol niweidiol gan gyfoedion sy'n digwydd yn yr ysgol a thu allan. Dilynwch y ddolen isod:

https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-10/canllawiau-i-leoliadau-addysg-am-gam-drin-rhywiol-camfanteisio-ac-ymddygiad-rhywiol-niweidiol-gan-gyfoedion.pdf

### 8.5 Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)

Dylai pawb sy'n gweithio gyda phlant yn Ysgol Cerrigydrudion fod yn wyliadwrus o'r gydberthynas gyson rhwng cam-drin domestig a cham-drin ac esgeuluso plant. Lle ceir tystiolaeth o gam-drin domestig, dylid ystyried y goblygiadau i unrhyw blant yn y cartref, gan gynnwys y posibilrwydd y gallai'r plant eu hunain fod yn dioddef trais neu fath arall o niwed.

Mae dogfen 'Y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol' a gyhoeddwyd yn 2019 gan Lywodraeth Cymru yn nodi'r lefel briodol o hyfforddiant i staff addysg. Rhaid i bob aelod staff yn Ysgol Cerrigydrudion gwblhau hyfforddiant Grŵp 1 VAWDASV, sydd ar gael ar y Llwyfan Dysgu fel modiwl e-Ddysgu i holl weithwyr Cyngor Sir Conwy.  Rhaid i Unigolion Diogelu Dynodedig gwblhau hyfforddiant Grŵp 2: Gofyn a Gweithredu.  Rhaid i bob aelod staff newydd gwblhau'r cwrs hwn o fewn eu tymor cyntaf yn y swydd.

Lle bo gan staff yn Ysgol Cerrigydrudion sail i gredu bod plentyn yn wynebu risg o, yn dioddef, neu'n byw mewn cartref â thrais a chamdriniaeth, dylid rhoi gwybod i'r UDD ar unwaith a gweithredu yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Darllenwch GANLLAW YMARFER CYMRU GYFAN: 'Diogelu plant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt' i gael rhagor o wybodaeth: https://diogelu.cymru/cy/chi-i/chi-i-c6/c6-p4/

Mae'r Llinell Gymorth Byw Heb Ofn yn llinell gymorth gyfrinachol sydd am ddim i'w defnyddio 24 awr y dydd. Mae'n cynnig cyngor a chymorth i bawb sy'n dioddef cam-drin a thrais, waeth beth fo'u rhywedd na'u cyfeiriadedd rhywiol, ac i 'unigolion eraill sy'n pryderu', megis ymarferwyr, aelodau'r teulu, ffrindiau, cydweithwyr a'r cyhoedd.

Gall ymarferwyr gael cyngor ac arweiniad gan Linell Gymorth Byw Heb Ofn (0808 8010 800).

### 8.2 Operation Encompass

Ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru, mae <ENW'R YSGOL> yn cymryd rhan yn *Operation Encompass* i gefnogi plant a phobl ifanc sydd wedi bod yn rhan o neu'n dyst i ddigwyddiad o gam-drin domestig. Mae hon yn bartneriaeth ymyrraeth gynnar a diogelu rhwng yr heddlu ac addysg sy'n cefnogi plant a phobl ifanc sy'n profi digwyddiadau o Gam-drin Domestig.

Caiff oedolyn allweddol ei bennu ym mhob ysgol sy'n cymryd rhan yn *Operation Encompass* er mwyn sicrhau ei fod yn meddu ar wybodaeth am gam-drin domestig a'i effaith ar blant, ac yn gallu lledaenu'r wybodaeth honno i bob aelod staff. Yr UDD sy'n ymgymryd â'r rôl hon yn Ysgol Cerrigydrudion i gael cymorth pellach, cysylltwch â Rheolwr y Tîm Gwaith Cymdeithasol Addysg.

Mae *Operation Encompass* yn golygu y bydd yr heddlu'n rhannu gwybodaeth am achosion o Gam-drin Domestig gyda'n hysgol CYN dechrau'r diwrnod ysgol canlynol pan fyddant wedi cael eu galw i ddelio â digwyddiad domestig. Bydd y wybodaeth a gaiff ein hysgol hefyd yn ein galluogi i baratoi ar gyfer y plentyn yn yr ysgol a sicrhau eu bod yn cael y cymorth y maent ei angen. Mae gwybodaeth *Operation Encompass* yn cael ei chadw yn unol â phob darn arall o wybodaeth gyfrinachol am ddiogelu ac amddiffyn plant.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: https://www.operationencompass.org/

### 8.3 Priodas dan Orfod

Mae priodas dan orfod yn arfer diwylliannol annerbyniol sy'n fath o drais yn erbyn genethod a merched, ac mae'n anghyfreithlon yn y DU.  Mae priodas dan orfod dan orfod yn drosedd gudd, lle bydd teuluoedd a chymunedau'n gweithio gyda'i gilydd, gan gredu eu bod yn parchu traddodiadau diwylliannol ac yn amddiffyn 'anrhydedd' y teulu a'r gymuned. Mae teuluoedd o'r farn eu bod yn amddiffyn eu plentyn rhag perthnasoedd 'anaddas' neu eu bod yn meithrin teuluoedd cryfach ac yn amddiffyn credoau diwylliannol neu grefyddol.

Os oes amheuaeth bod plentyn mewn perygl o drais ar sail anrhydedd neu briodas dan orfod, neu os oes oedolyn yn wynebu risg, dylid dweud wrth yr UDD ar unwaith a gweithredu yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Os credwch chi fod plentyn neu oedolyn yn wynebu risg uniongyrchol o niwed, dylech gysylltu â'r Heddlu.

Darllenwch GANLLAW YMARFER CYMRU GYFAN: 'Diogelu plant rhag arferion niweidiol sy'n ymwneud â thraddodiad, diwylliant, crefydd neu ofergoelion' i gael rhagor o wybodaeth: https://diogelu.cymru/cy/chi-i/chi-i-c6/c6-p2/

### 8.8 Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod

Mae adran 5B Deddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003 yn cyflwyno dyletswydd adrodd gorfodol sy'n ei gwneud yn ofynnol i athrawon yng Nghymru a Lloegr roi gwybod i'r heddlu am achosion hysbys o anffurfio organau cenhedlu benywod ymhlith merched dan 18 oed a ganfyddir ganddynt yn ystod eu gwaith proffesiynol. Mae canllawiau'r Swyddfa Gartref, *'Multi-agency statutory guidance on female genital mutilation' (2020)*, yn nodi'n glir bod y ddyletswydd yn berthnasol i athrawon cymwys neu unigolion a gyflogir i wneud gwaith addysgu mewn ysgolion a cholegau, ac ymarferwyr addysg a reoleiddir gan Gyngor y Gweithlu Addysg.

Bydd pob aelod staff yn Ysgol Cerrigydrudion yn ymgyfarwyddo â diwylliant a chredoau teuluoedd yn ein cymuned. Ni ddylai arferion niweidiol posib gael eu diystyru ar sail sensitifrwydd diwylliannol a dylai staff ymgyfarwyddo ag arferion megis anffurfio organau cenhedlu benywod a phriodas dan orfod. Dylai staff fod yn ymwybodol y gellid mynd â merched dramor yn ystod gwyliau'r haf er mwyn anffurfio organau cenhedlu benywod, gan y gall triniaethau gymryd hyd at bedair wythnos i wella. Felly mae'n bosib y gallai'r driniaeth gael ei chyflawni cyn i ferch ddychwelyd i'r ysgol ar ddechrau tymor yr hydref.

Os oes amheuaeth bod plentyn mewn perygl o anffurfio organau cenhedlu benywod, neu os oes oedolyn yn wynebu risg, dylid dweud wrth yr UDD ar unwaith a gweithredu yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Os credwch chi fod plentyn neu oedolyn yn wynebu risg uniongyrchol o niwed, dylech gysylltu â'r Heddlu.

Darllenwch GANLLAW YMARFER CYMRU GYFAN: 'Diogelu plant rhag arferion niweidiol sy'n ymwneud â thraddodiad, diwylliant, crefydd neu ofergoelion' i gael rhagor o wybodaeth:
https://diogelu.cymru/cy/chi-i/chi-i-c6/c6-p2/

## 9. DIOGELWCH AR-LEIN

Mae diogelwch ar-lein yn rhan hanfodol o gyfrifoldebau diogelu ysgol fel yr amlinellir yng Nghanllawiau Statudol Cadw Dysgwyr yn Ddiogel Llywodraeth Cymru. Mae Ysgol Cerrigydrudion wedi ymrwymo i hybu defnydd diogel a chadarnhaol o'r byd ar-lein i blant a phobl ifanc. Rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio technolegau cymdeithasol yn llawn i ymgysylltu â dysgwyr a gwella deilliannau dysgu, gan ddatblygu'r dysgwyr i fod yn ddinasyddion digidol hyderus a medrus.

Nod Ysgol Cerrigydrudion yw meithrin gwybodaeth, sgiliau a hyder ymhlith dysgwyr o ran diogelwch ar-lein. Bydd ein hysgol yn cyflawni hyn drwy:

Roi'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol ar waith, a gwreiddio sgiliau, gwybodaeth ac agweddau digidol ar draws y cwricwlwm a'u cynnwys mewn gwersi.

Bydd yr ysgol hefyd yn cyflwyno rhaglen addysg wedi'i chynllunio ar ddiogelwch ar-lein sydd:
- yn cael ei haddysgu i bob grŵp oedran ac yn datblygu wrth i'r dysgwyr dyfu a datblygu;
- yn gylchol ac yn flaengar yn hytrach nag yn un sesiwn ddiogelwch ar-lein ar ei phen ei hun;
- yn helpu dysgwyr i ddatblygu strategaethau ar gyfer delio â'r byd ar-lein a datblygu gwytnwch;
- yn cael ei gwreiddio ar draws y cwricwlwm;
- yn defnyddio mentrau a chyfleoedd cenedlaethol perthnasol megis Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel (Chwefror) ac Wythnos Gwrth-fwlio (Tachwedd);
- yn defnyddio adnoddau priodol a chyfredol;

- yn defnyddio adnoddau, gan gynnwys ymweliadau gan ddarparwyr allanol, yn briodol i gefnogi darpariaeth fewnol ac ychwanegu ati;
- yn briodol i ddysgwyr o wahanol oedrannau a galluoedd, megis dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, neu'r rheini sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol;
- yn galluogi'r dysgwyr i gofio, esbonio a mynd ati i ddefnyddio addysg ar ddiogelwch ar-lein;
- yn sicrhau bod athrawon yn cael hyfforddiant priodol, gan sicrhau bod arbenigedd a dealltwriaeth yn sail i'w haddysgu.

Mae pob aelod staff yn Ysgol Cerrigydrudion yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau unigol mewn perthynas â diogelu dysgwyr yng nghyd-destun diogelwch ar-lein. Mae'r holl staff yn rhannu cyfrifoldeb i gadw at Bolisi Defnydd Derbyniol Conwy ar y cyd â Pholisi Diogelwch Ar-Lein yr ysgol (neu bolisi cyfatebol).

I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch y Polisi Defnydd Derbyniol a'r Polisi Diogelwch Ar-lein, sydd i'w gweld ar wefan yr ysgol.

Ym mis Ionawr 2020, cyhoeddodd Cyngor y DU ar Ddiogelwch Plant ar y Rhyngrwyd ganllawiau i helpu Cyrff Llywodraethu herio eu hysgolion i ddiogelu eu dysgwyr ar lein yn effeithiol:

https://hwb.gov.wales/cadwn-ddiogel-ar-lein/canllawiau-llywodraeth-cymru/pum-cwestiwn-allweddol-ar-gyfer-cyrff-llywodraethu-er-mwyn-helpu-i-herio-ysgolion-a-cholegau-i-ddiogelu-eu-dysgwyr-yn-effeithiol

### 9.1 360 Degree Safe Cymru

Mae 360 Degree Safe Cymru yn adnodd hunan-adolygu i ysgolion allu asesu a gwella eu harferion a'u polisi diogelwch ar-lein. Gellir mynd at yr adnodd rhyngweithiol ar-lein drwy fewngofnodi i'r Hwb a chlicio ar y ddolen 360 Degree Safe Cymru ar hafan yr Hwb. https://360safecymru.org.uk/dashboard/

Mae cynnal adolygiad yn helpu ysgolion i gynllunio a gwneud newidiadau angenrheidiol i bolisïau, rhaglenni addysg diogelwch ar-lein, diogelwch technegol, y cyfryngau cymdeithasol a defnyddio technolegau symudol. Mae'r adnodd yn cynhyrchu camau gweithredu ac yn awgrymu'r camau nesaf yn ogystal ag adrodd ar y gwelliannau a wnaed. Mae tystiolaeth o'r data a gedwir yn yr adnodd 360 Degree Safe Cymru yn nodi'n glir bod ysgolion sy'n defnyddio'r adnodd dros gyfnod o rai blynyddoedd yn gwella'u harferion yn y meysydd hyn.

Anogir pob ysgol yng Nghonwy i gofrestru ar gyfer yr adnodd 360 Degree Safe Cymru a chwblhau pob un o'r 28 agwedd; gan gynnal adolygiad bob blwyddyn.

### 9.2 Ffrydio Byw

Gall ysgolion ystyried ffrydio byw yn ddull ymarferol a phriodol mewn rhai amgylchiadau. Rhaid i ddiogelu fod yn rhan annatod o ddarpariaeth gwersi sy'n cael eu ffrydio'n fyw i sicrhau bod dysgwyr yn cael eu diogelu'n briodol. Yn <ENW'R YSGOL>, pan fyddwn yn cynnal sesiynau ffrydio byw neu fideo-gynadledda, bydd pob aelod staff yn cadw at y canllawiau 'Ffrydio byw a fideo-gynadledda: arferion ac egwyddorion diogelu' a gyhoeddwyd ym mis Mai 2020 ac sydd i'w gweld isod:

https://hwb.gov.wales/cadwn-ddiogel-ar-lein/canllawiau-llywodraeth-cymru/ffrydio-byw-a-fideogynadledda-arferion-ac-egwyddorion-diogelu. Diweddarwyd y canllawiau hyn ym mis Mawrth 2021.

### 9.3 Rhannu Delweddau Noeth a Hanner Noeth

Diffinnir rhannu delweddau noeth a hanner noeth fel 'creu a/neu rannu delweddau, fideos neu ffrydiau byw noeth neu hanner noeth gan bobl ifanc o dan 18 oed'. Gallai hyn ddigwydd ar y cyfryngau cymdeithasol, platfformau chwarae gemau, apiau sgwrsio neu fforymau.

Mae'r rhan fwyaf o achosion o greu a rhannu delweddau noeth neu hanner noeth yn digwydd y tu allan i'r ysgol, ond dyma lle mae digwyddiadau'n aml yn dod i'r amlwg. Gall yr ymddygiad hwn wneud pobl ifanc yn

agored i risgiau sy'n cynnwys rhannu delweddau heb gydsyniad, codi cywilydd, bwlio a'u gwneud yn fwy agored i flacmel a gorfodaeth neu gamfanteisio rhywiol. Mae creu a rhannu delweddau rhywiol o bobl ifanc dan 18 oed yn anghyfreithlon. Mae ymateb yn gyflym ac yn hyderus yn bwysig i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu, eu cefnogi a'u haddysgu.

**Rhannu delweddau noeth a hanner noeth: sut i ymateb i ddigwyddiad. Trosolwg i bob aelod staff sy'n gweithio mewn lleoliadau addysg yng Nghymru**

Dylid rhoi gwybod am bob achos o rannu delweddau noeth a hanner noeth i'r UDD neu'r aelod staff cyfatebol. Darllenwch y trosolwg cryno isod i bob aelod staff ynglŷn â sut i ymateb i achosion o rannu delweddau noeth a hanner noeth:

- Peidiwch byth ag edrych ar y ddelwedd eich hun, gwneud copi ohoni, ei hargraffu, ei rhannu, ei storio na'i chadw, a pheidiwch â gofyn i blentyn ei rhannu na'i lawrlwytho – mae hyn yn anghyfreithlon.
- Os ydych chi eisoes wedi gweld y ddelwedd drwy ddamwain (e.e. os yw person ifanc wedi'i dangos i chi cyn i chi allu gofyn iddynt beidio), rhowch wybod i'r UDD (neu aelod staff cyfatebol).
- Peidiwch â dileu'r ddelwedd na gofyn i'r person ifanc ei dileu.
- Peidiwch â gofyn i'r plentyn/plant na'r person/bobl ifanc sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad ddatgelu gwybodaeth am y ddelwedd. Cyfrifoldeb yr UDD (neu aelod staff cyfatebol) yw gwneud hyn.
- Peidiwch â rhannu gwybodaeth am y digwyddiad gydag aelodau staff eraill, y person/bobl ifanc dan sylw, eu rhieni/gofalwyr na rhieni/gofalwyr eraill.
- Peidiwch â dweud na gwneud unrhyw beth i feio na chodi cywilydd ar y person/bobl ifanc dan sylw.
- Esboniwch iddynt fod angen i chi roi gwybod am y digwyddiad, a dywedwch wrthynt y byddant yn cael cefnogaeth a chymorth gan yr UDD (neu'r aelod staff cyfatebol).

Darllenwch ganllawiau Llywodraeth Cymru: *'Rhannu delweddau noeth a hanner noeth: Ymateb i ddigwyddiadau a diogelu plant a phobl ifanc - canllawiau ar gyfer lleoliadau addysg'* i gael rhagor o wybodaeth:
https://hwb.gov.wales/cadwn-ddiogel-ar-lein/canllawiau-llywodraeth-cymru/rhannu-delweddau-noeth-a-hanner-noeth-ymateb-i-ddigwyddiadau-a-diogelu-plant-a-phobl-ifanc

### 9.4 Cam-drin Ar-lein

Mae cam-drin ar-lein yn golygu unrhyw fath o gam-drin a hwylusir trwy dechnoleg megis cyfrifiaduron, dyfeisiau llechen, ffonau symudol, consolau a dyfeisiau electronig eraill. Gall cam-drin ar-lein ddigwydd ar sawl ffurf a chynnwys; seiberfwlio, secstio ac aflonyddu rhywiol, pornograffi ar-lein, cam-drin rhywiol ar-lein a radicaleiddio ar-lein.

Mae 'meithrin perthynas amhriodol' yn disgrifio'r broses gyfathrebu y mae oedolion sy'n cam-drin yn ei defnyddio i dwyllo plentyn neu berson ifanc i gredu y gallant ymddiried ynddynt, er mwyn iddynt allu eu cam-drin ar-lein ac all-lein.

Gall oedolion feithrin perthynas amhriodol gyda phlant ar-lein er mwyn eu cam-drin yn rhywiol; er mwyn Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, sy'n fath o gam-drin plant yn rhywiol, er mwyn Camfanteisio'n Droseddol ar Blant ac er mwyn eu radicaleiddio. Gall technoleg olygu y gall cyflawnwyr camdriniaeth gael mynediad at blant yn haws nag a fyddai'n bosib mewn amgylcheddau all-lein.

Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon bod plentyn yn cael ei gam-drin ar-lein mewn unrhyw ffordd i'r UDD ar unwaith, a gweithredu yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Os credwch chi fod plentyn mewn perygl uniongyrchol o niwed, er enghraifft os gwyddoch chi eu bod yn bwriadu, neu wedi mynd i gwrdd â throseddwr posib, dylech gysylltu â'r heddlu.

Mae'n bwysig nad ydych chi'n gofyn i unrhyw un anfon unrhyw ddelweddau neu fideos ymlaen atoch ac nad ydych yn anfon unrhyw ddelweddau neu fideos ymlaen drwy dechnoleg eich hun - hyd yn oed at yr heddlu.

Os byddwch yn amau bod delweddau/ logiau sgwrsio/ hanes gwefannau ar unrhyw ddyfais sy'n perthyn i'r

plentyn, peidiwch â dileu unrhyw beth ar y ddyfais. Mae angen ymafael yn y ddyfais a'i chadw yn y cyflwr y cafodd ei chanfod. Dylid cadarnhau unrhyw PIN/manylion mynediad i ddyfais lle bo modd, er mwyn i'r heddlu allu archwilio'r ddyfais mewn unrhyw ymchwiliad.

Darllenwch GANLLAW YMARFER CYMRU GYFAN: 'Diogelu plant rhag cam-drin ar-lein' i gael rhagor o wybodaeth: https://diogelu.cymru/cy/chi-i/chi-i-c6/c6-p6/

### 9.5 Hidlo Cynnwys y We

Bydd y Corff Llywodraethu yn Ysgol Cerrigyrudion yn sicrhau bod hidlwyr a systemau monitro priodol yn cael eu rhoi ar waith yn unol â chanllawiau *Safonau a argymhellir ar gyfer hidlo'r we yn ysgolion Cymru* 2018, i sicrhau bod yr ysgol yn darparu amgylchedd diogel, cyfrifol a chefnogol i ddysgu ynddo, ac atal mynediad at gynnwys amhriodol neu niweidiol.

Darllenwch ganllawiau Llywodraeth Cymru: 228/2018 **Safonau a argymhellir ar gyfer hidlo'r we yn ysgolion Cymru** i gael rhagor o wybodaeth:

https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/safonau-a-argymhellir-ar-gyfer-hidlo%E2%80%99r-we-yn-ysgolion-cymru.pdf

## 10. CYDLYNIANT CYMUNEDOL - ATAL RADICALEIDDIO

Mae Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 yn gosod dyletswydd ar amrywiaeth o awdurdodau penodol (yn cynnwys perchnogion ysgolion a gynhelir, ysgolion arbennig a ariennir nas cynhelir, ysgolion meithrin a gynhelir, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, colegau, darparwyr dysgu seiliedig ar waith a phrifysgolion) i *"roi sylw dyledus, wrth gyflawni eu swyddogaethau, i atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth"*. Gelwir hyn yn Ddyletswydd Prevent.

Bydd Ysgol Cerrigydrudion yn sicrhau bod y Ddyletswydd Prevent yn cael ei rhoi ar waith, gan ystyried y polisïau, y protocolau a'r gweithdrefnau 'Prevent' Lleol. Dylid ystyried Prevent yn fesur diogelu, ac mae'r camau y bydd ein hysgol yn eu cymryd yr un fath â'r camau a gymerir i ddiogelu plant a phobl ifanc o fathau eraill o niwed.

Bydd ein hysgol yn creu amgylchedd diogel lle gall plant ddeall a thrafod pynciau sensitif, gan gynnwys terfysgaeth a syniadau eithafol, a dysgu sut i herio'r syniadau hyn.
Dylid defnyddio cyfleoedd yn y cwricwlwm i archwilio a herio'r pynciau hyn ac i hybu gwerthoedd democratiaeth, parchu'r naill a'r llall, a bod yn oddefgar tuag at wahanol grefyddau a chredoau.

Mae'n hanfodol bod aelodau staff yn gallu adnabod disgyblion a allai fod yn agored i gael eu radicaleiddio, a'u bod yn gwybod beth i'w wneud ar ôl eu hadnabod. Rhaid i'r holl aelodau staff a Llywodraethwyr gwblhau Hyfforddiant Dyletswydd Prevent y Swyddfa Gartref unwaith bob tair blynedd. Mae hwn ar gael fel modiwl e-ddysgu drwy ddilyn y ddolen isod.

https://www.support-people-susceptible-to-radicalisation.service.gov.uk/cy

Commented [SF3]: Add in Hwb link

Wrth ddiogelu myfyrwyr rhag eithafiaeth a radicaleiddio, bydd llywodraethwyr, staff a gwirfoddolwyr ysgolion yn gwylio am:

- Ddatgeliad gan ddysgwyr eu bod wedi dod i gysylltiad â gweithredoedd, safbwyntiau neu ddeunyddiau eithafol;
- Graffiti, symbolau, ysgrifen neu waith celf yn hyrwyddo negeseuon neu ddelweddau eithafol;
- Adroddiadau am newidiadau mewn ymddygiad, grŵp ffrindiau neu weithredoedd a cheisiadau am gymorth;
- Adroddiadau gan ysgolion partner, gwasanaethau awdurdodau lleol a'r heddlu am faterion sy'n effeithio ar ddisgyblion mewn ysgolion neu leoliadau eraill;
- Disgyblion, staff, rhieni neu ymwelwyr yn mynegi barn sy'n deillio o syniadaeth a naratifau eithafol;

- Defnydd o dermau eithafol neu 'gasineb' i eithrio pobl eraill neu i ysgogi trais;
- Diffyg goddefgarwch i wahaniaethau;
- Ymdrechion i orfodi safbwyntiau neu arferion eithafol ar bobl eraill;
- Safbwyntiau sy'n erbyn y Gorllewin neu yn erbyn Prydain;
- Defnydd o'r rhyngrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol (gyda'r ddealltwriaeth eu bod yn cael eu defnyddio gan eithafwyr a therfysgwyr i hyrwyddo eu syniadaeth a recriwtio neu radicaleiddio pobl ifanc).

Os ydych chi'n pryderu bod plentyn neu oedolyn yn cael eu radicaleiddio, rhowch wybod i'r Unigolyn Diogelu Dynodedig (UDD) ar unwaith. Os credwch chi fod plentyn neu oedolyn yn wynebu risg uniongyrchol o niwed, dylech gysylltu â'r Heddlu.

I gael cyngor am Prevent, cysylltwch â Dave.Bates@northwales.police.uk
Gallwch hefyd gysylltu â gwefan HGC, ffonio 101 neu gychwyn gwe-sgwrs. Fel arall, gallwch gysylltu â Llinell Gymorth Gwrth-derfysgaeth yr Heddlu ar 0800 789321.

Gallwch wneud atgyfeiriadau Prevent yma - Ffurflen Atgyfeirio Prevent Genedlaethol.

Os bydd pryderon ychwanegol am unigolyn, er enghraifft, pryderon amddiffyn plant, bydd angen atgyfeirio'r rhain at Gyswllt Cyntaf y Gwasanaethau Plant.

Dilynwch y ddolen isod i gael rhagor o wybodaeth am Atal Radicaleiddio:
https://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Social-Care-and-Wellbeing/Im-worried-about-somebody/Preventing-radicalisation.aspx

### 10.1 Llogi Lleoliad

**Mae hyn yn berthnasol i ysgolion sy'n rhoi eu cyfleusterau ar log i'r cyhoedd, yn cynnwys grwpiau ac elusennau**

Disgwylir i Gyngor Sir Conwy sicrhau nad yw lleoliadau ac adnoddau sy'n eiddo i'r cyhoedd yn rhoi llwyfan i eithafwyr ac nad ydynt yn cael eu defnyddio i ledaenu safbwyntiau eithafol. Dylai Ysgol Cerrigydrudion sicrhau nad yw eu lleoliad yn cael ei ddefnyddio gan unigolion â safbwyntiau a fyddai'n denu pobl i derfysgaeth. Rhaid i'r Corff Llywodraethu sicrhau bod system archebu drylwyr ar waith a bod staff perthnasol yn deall beth i'w wneud os oes ganddynt amheuon. Darllenwch y Canllawiau Gweithredol ar Logi Lleoliad – **Atodiad 2**.

## 11. DIOGELWCH SAFLE'R YSGOL

### 11.1 Rheoli Mynediad

Mae Ysgol Cerrigydrudion yn lle diogel i blant ddysgu ac mae diogelwch corfforol y plant pan fyddant ar safle'r ysgol o'r pwys mwyaf. Mae mynediad i safle'r ysgol yn cael ei fonitro a'i adolygu'n fanwl yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Lleol ar Iechyd a Diogelwch ar safle'r ysgol.

Rhaid cynnal asesiad addas a digonol o risgiau diogelwch er mwyn gallu llunio mesurau rheoli: mae enghreifftiau o Restr Wirio Diogelwch Safle ac Asesiad Risg Enghreifftiol sy'n trafod mynediad cyffredinol, diogelwch a pheryglon diogelu, ar gael i'w gweld dan adran Iechyd a Diogelwch gwefan Hwb. Gall mesurau rheoli gynnwys goleuadau priodol a dulliau diogelu o amgylch y safle, ynghyd ag arwyddion clir, systemau larwm a theledu cylch caeëdig. Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld yn:
https://www.conwy.gov.uk/cy/Business/Environmental-Health/Health-and-Safety/Health-and-Safety.aspx

Mae rheoli terfyn allanol yr ysgol a mynediad i'r adeiladau yn rhan fawr o ddiogelwch, yn yr un modd â rheoli staff ac ymwelwyr â'r ysgol. Mae'n arfer dda i ysgolion geisio cael un fynedfa lle gall staff y dderbynfa reoli ymwelwyr. Yn yr un pwynt mynediad hwn, dylai staff allu gwrthod mynediad i ymwelwyr sydd heb ddull adnabod boddhaol na rheswm dros ymweld â'r ysgol.

Bydd staff yn:

- Sicrhau mai dim ond drwy'r brif fynedfa y bydd ymwelwyr, gwirfoddolwyr a myfyrwyr ond yn dod i mewn, a'u bod yn mewngofnodi yn y Dderbynfa;
- Sicrhau bod pob ymwelydd yn cael bathodyn ymwelydd;
- Sicrhau bod ymwelwyr yn allgofnodi ac yn dychwelyd eu bathodynnau wrth adael y safle;
- Sicrhau bod plant ond yn cael mynd adref gydag oedolion sydd â chyfrifoldeb rhiant drostynt neu gyda chaniatâd wedi'i gadarnhau (cynradd);
- Sicrhau nad yw dysgwyr byth yn cael gadael yr ysgol ar eu pennau eu hunain yn ystod oriau'r ysgol, a bod oedolyn cyfarwydd yn dod i'w casglu;
- Gofyn cwestiynau diogelwch i unrhyw un sy'n gadael neges i blentyn yn yr ysgol;
- Herio rhesymau oedolion anghyfarwydd dros fod ar safle'r ysgol;
- Sicrhau bod drysau ar gau i atal unrhyw un rhag torri i mewn;
- Sicrhau bod ffenestri mewn ystafelloedd dosbarth gwag ar gau;
- Gwisgo bathodynnau adnabod (arfer dda).

### 11.2 Gweithdrefnau Cloi mewn Argyfwng

Dylid ystyried gweithdrefnau cloi mewn argyfwng fel ymateb synhwyrol a chymesur i unrhyw ddigwyddiad allanol neu fewnol a allai fod yn fygythiad i ddiogelwch staff a disgyblion yr ysgol. Dylai'r gweithdrefnau geisio tarfu cyn lleied ag y bo modd ar yr amgylchedd dysgu a sicrhau diogelwch yr holl ddisgyblion a staff yr un pryd. Mae Ysgol Cerrigydrudion wedi datblygu gweithdrefnau cadarn sydd wedi'u profi ar gyfer cloi mewn argyfwng yn llawn ac yn rhannol.

### 11.3 Dianc

Dan Adran 3 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 ac yn ôl Cyfraith Gyffredin, mae dyletswydd ar ysgolion a lleoliadau addysg eraill i ofalu am eu dysgwyr. Mae'r ddyletswydd hon i ofalu'n gofyn i'r ysgol gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod dysgwyr yn ddiogel ac yn aros yng ngofal yr ysgol drwy gydol y diwrnod ysgol ac yn ystod gweithgareddau sy'n cael eu cynnal gan yr ysgol.

Yn unol â hynny, rhaid cymryd camau priodol, drwy'r rhaglen rheoli disgyblion a hyfforddi staff, i geisio lleihau'r posibilrwydd y bydd un neu fwy o ddysgwyr yn dianc. Diffinnir dianc fel 'gadael heb ganiatâd'.

Er mwyn atal dysgwr rhag dianc, gall yr ysgol ystyried mabwysiadu'r mesurau rheoli mwyaf addas ar gyfer y safle:

- terfyn allanol a giatiau diogel y mae modd eu cloi;
- dylai giatiau/drysau fod wedi'u cau'n sownd y tu allan i amseroedd danfon a chasglu penodedig yr ysgol;
- dylid cloi giatiau yn ystod amseroedd egwyl os oes risg sylweddol bod unrhyw ddysgwr am ddianc;
- dylai drysau i mewn i'r ysgol fod wedi'u cloi o'r tu allan gyda mynediad trwy god neu ddull tebyg;
- efallai y bydd angen bolltau/cloeon uchel ar ddrysau/giatiau er mwyn rhwystro disgyblion iau rhag gallu mynd allan heb ganiatâd;
- dylai allanfeydd ardal y Blynyddoedd Cynnar fod â handlenni dwbl;
- gellir cael drysau tân sydd â bolltau/cloeon uchel arnynt os oes risg arwyddocaol y bydd disgybl yn dianc. Rhaid cofnodi hyn yn yr asesiad risg tân a rhaid i rywun sy'n gallu datgloi'r drws fod yno drwy'r amser tra mae disgyblion yno.

Os bydd dysgwr yn ceisio, neu'n cael eu gweld yn gadael safle'r ysgol heb awdurdodiad, rhaid i staff fod yn ymwybodol y gall mynd ar ôl y dysgwr eu hannog i adael cyffiniau'r ysgol, gan achosi panig, a allai eu rhoi mewn perygl e.e. drwy redeg i ganol ffordd brysur.

Os yw’r dysgwr wedi gadael cyffiniau safle'r ysgol ac nad oes modd eu gweld mwyach, rhaid i’r Uwch Dîm Arwain benderfynu sut i barhau, gan ystyried: oed y dysgwr, amodau cyffredinol y tywydd, natur y digwyddiad a achosodd i'r dysgwr ddianc, hanes y dysgwr o ddianc a chanlyniadau hynny. Rhaid i’r Uwch Dîm Arwain neu’r aelod staff dynodedig gysylltu â’r Heddlu a'r rhieni/gofalwyr ar unwaith. Os oes ffactorau risg / bregusrwydd ychwanegol, dylid cysylltu â Heddlu Gogledd Cymru.

Diffiniad Heddlu Gogledd Cymru o unigolyn coll yw *“Unrhyw un y mae eu lleoliad yn anhysbys waeth beth fo amgylchiadau'r diflaniad. Ystyrir eu bod ar goll nes bod eu lleoliad a’u lles wedi’u cadarnhau”.*

Darllenwch yr adran am Unigolion Coll yng Nghanllawiau ‘Digwyddiadau Tyngedfennol Conwy - Canllaw Ysgolion i Reoli Argyfyngau Ar ac Oddi Ar y Safle’.

Commented [SF4]: Scott to check

## 12. ARFER RECRIWTIO MWY DIOGEL

Mae’n hanfodol bod ysgolion yn mabwysiadu gweithdrefnau recriwtio a dethol, a phrosesau rheoli AD eraill sy’n helpu i atal, adnabod a gwrthod pobl a allai gam-drin plant, neu sy’n anaddas i weithio gyda nhw mewn unrhyw ffordd arall.

Rhaid i bob aelod staff addysgu a staff cymorth fod wedi cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg. Fel y corff rheoleiddio annibynnol ar gyfer y proffesiwn addysg yng Nghymru, mae Cyngor y Gweithlu Addysg yn cadw Cofrestr o Ymarferwyr Addysg dan saith categori cofrestru: athro ysgol, gweithiwr cefnogi ysgol, athro addysg bellach, gweithiwr cefnogi addysg bellach, gweithiwr ieuenctid, gweithiwr cefnogi ieuenctid ac ymarferwr dysgu seiliedig ar waith.

Fel rhan o’r camau gwirio cyn cyflogi, gall ysgolion, colegau ac asiantaethau cyflenwi masnachol weld Cofrestr Cyngor y Gweithlu Addysg i wirio bod unrhyw un sy’n dod o dan y saith categori cofrestru wedi’u cofrestru. Os yw unigolyn wedi’u cynnwys ar restr waharddedig y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), nid yw’n gymwys i weithio yn unrhyw un o’r saith proffesiwn cofrestredig, ac ni all gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg.

I hyrwyddo arferion Recriwtio ac Adnoddau Dynol Diogel, bydd Ysgol Cerrigydrudion yn:

- Sicrhau bod staff, gwirfoddolwyr a llywodraethwyr yn cwblhau datgeliad manylach fel rhan o’r broses recriwtio. Mae gwiriad y DBS yn datgelu unrhyw euogfarnau ac yn gwirio yn erbyn Rhestr Waharddedig Plant ac Oedolion y DBS;
- Sicrhau bod y Pennaeth yn gallu gweld manylion pob gwiriad am dystysgrif DBS a bod cofnod ohonynt ar un cofnod canolog (cronfa ddata'r ysgol);
- Sicrhau bod staff, gwirfoddolwyr a llywodraethwyr yn adnewyddu eu tystysgrifau datgeliad DBS <u>bob tair blynedd</u>, sef yr hyn a ystyrir yn arfer orau;
- Sicrhau bod unrhyw aelod staff, gwirfoddolwr neu lywodraethwr unigol yn diweddaru eu tystysgrif datgeliad DBS os oes yna sail resymol dros wneud hynny e.e. ar ôl bod â rhan mewn gweithgarwch troseddol neu os gwneir honiad proffesiynol;
- Sicrhau, os ceir gwybodaeth am ddatgeliad, naill ai wrth recriwtio neu wedi hynny, bod asesiad risg yn cael ei gwblhau a’i ddwyn at sylw Cyngor Sir Conwy;
- Cadw cofnod ysgrifenedig o’r holl staff cyflenwi, gwirfoddolwyr a chontractwyr dyddiol, gan restru’n glir ble mae’r datgeliad DBS ar gael, neu lunio asesiad risg os nad oes datgeliad DBS ar gael. Dylai staff fel seicolegwyr addysg, athrawon cyflenwi, athrawon dan hyfforddiant, nyrsys, hyfforddwyr chwaraeon ac arolygwyr fod wedi derbyn gwiriad DBS gan eu cyflogwr, er enghraifft yr asiantaeth gyflenwi, y brifysgol neu’r awdurdod lleol. Mae’n ddigonol i ysgolion gael cadarnhad ysgrifenedig bod yr holl wiriadau priodol wedi’u cynnal mewn perthynas â’r unigolion hyn (gan amlaf, wrth eu penodi) a chan bwy (gan amlaf, yr adran adnoddau dynol berthnasol). Dylai ysgolion wedyn gadarnhau pwy yw’r ymwelwyr hyn.

Ar gyfer pob penodiad a wneir gan Gorff Llywodraethu Ysgol Cerrigydrudion byddwn yn cadw at y POLISI ENGHREIFFTIOL RECRIWTIO A DETHOL a’r Polisi Gwiriadau Datgelu a Gwahardd.

### 12.1 Athrawon Cyflenwi

Yn ôl y gyfraith, mae'r ymarferydd ei hun yn ogystal â'r cyflogwr yn gyfrifol am sicrhau mai dim ond ymarferwyr sydd wedi'u cofrestru'n briodol sy'n cael eu cyflogi yn y swydd briodol. Pan ddefnyddir asiantaeth gyflenwi fasnachol, mae'r cyflogwr e.e. yr ysgol neu'r sefydliad addysg bellach, a'r asiantaeth gyflenwi fasnachol yn gyfrifol am gynnal y gwiriadau angenrheidiol; ni ddylai'r un ohonynt gymryd yn ganiataol bod y llall wedi eu cynnal.

Mae ysgolion yn rhydd i ymgysylltu ag athrawon cyflenwi cymwys o ble bynnag y maent yn teimlo sy'n briodol i ddiwallu anghenion eu hysgol. Mae llwybrau cyflogaeth arferol yn cynnwys eu cyflogi'n uniongyrchol; rhestrau cyflenwi'r ALl; cyflogi athrawon ychwanegol/symudol (fel ysgol unigol neu ar y cyd ag ysgolion eraill); defnyddio asiantaeth gyflenwi fasnachol.

Os defnyddir asiantaethau cyflenwi masnachol i gyflenwi mewn ysgolion a gynhelir, dylai'r pennaeth/y corff llywodraethu fod yn ymwybodol o Fframwaith Athrawon Cyflenwi'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar gyfer Cymru a gomisiynwyd ar ran awdurdodau lleol.

Bydd defnyddio asiantaethau cyflenwi masnachol ar y fframwaith yn rhoi sicrwydd i ysgolion bod yr athrawon a gyflenwir yn cyrraedd safonau ansawdd gofynnol a rhwymedigaethau diogelu statudol, a bod tryloywder o ran y ffioedd sy'n daladwy gan ysgolion, gan sicrhau ar yr un pryd bod athrawon cyflenwi wedi'u diogelu gan bob asiantaeth a dderbynnir i'r fframwaith.

### 12.2 Gwirfoddolwyr

Mae Cyngor Sir Conwy'n ystyried gwirfoddoli yn 'weithgaredd di-dâl lle mae rhywun yn cynnig eu hamser o'u gwirfodd i helpu sefydliad neu unigolyn nad ydynt yn perthyn iddynt'.

Mae Cyngor Sir Conwy ac Ysgol Cerrigydrudion yn dilyn y gweithdrefnau a amlinellir gan y Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd i sicrhau diogelwch plant ac oedolion diamddiffyn. Ni all gwirfoddolwr sy'n dymuno cymryd rhan mewn gweithgaredd a amlinellir ym Meini Prawf y DBS wneud hynny nes bod y Cyngor wedi derbyn gwiriad DBS clir.

Rhaid i'r Pennaeth sicrhau bod gwirfoddolwyr yn rhoi sylw dyledus i'r polisi hwn a'u bod wedi derbyn hyfforddiant Ymwybyddiaeth Sylfaenol o Ddiogelu.

## 13. HONIAD YN ERBYN AELOD STAFF NEU OEDOLYN

Dylai unrhyw honiad o gam-drin a wneir gan blentyn neu ar ran plentyn gael ei gymryd o ddifrif, a dylid gwrando ar y plentyn ac ymdrin â'r honiad mewn modd sensitif. Rhaid i'r holl staff sicrhau bod y Pennaeth neu'r Unigolyn Diogelu Dynodedig (UDD) yn cael gwybod ar unwaith am unrhyw honiad sy'n ymwneud ag oedolyn sy'n gweithio gyda dysgwyr; bydd hyn yn cynnwys holl staff yr ysgol, gwirfoddolwyr, llywodraethwyr, gweithwyr achlysurol neu gontractwyr a'r aelodau staff hynny nad ydynt ar safle'r ysgol ond sy'n dod i gysylltiad â'r plant, h.y. unigolion sy'n cludo dysgwyr i/o'r ysgol, hebryngwyr croesfannau ysgol, ac ati.

Os yw'r honiad yn erbyn y Pennaeth, yna rhaid rhoi gwybod i Gadeirydd y Llywodraethwyr, a fydd yn ei dro yn rhoi gwybod i Brif Swyddog Addysg Conwy. Mae'n hanfodol mynd i'r afael â phob honiad o gam-drin yn gyflym, yn deg ac yn gyson.

Os oes bygythiad uniongyrchol neu debygolrwydd o niwed i'r plentyn neu'r oedolyn sy'n wynebu risg, rhaid i'r UDD / Pennaeth / Cadeirydd y Llywodraethwyr gyfeirio ar unwaith at yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol. Rhaid iddynt hefyd roi gwybod i Arweinydd Diogelu Dynodedig yr Awdurdod Lleol ar gyfer Addysg **cyn gynted ag y bo modd**, a **phob tro o fewn 24 awr** i adrodd am y pryder (neu'r diwrnod gwaith nesaf, os yw y tu allan i oriau swyddfa).

Dylid rhoi gwybod i Arweinydd Diogelu Dynodedig yr Awdurdod Lleol ar gyfer Addysg am unrhyw honiad sy'n dod i sylw ysgol, a bydd yr Arweinydd hwnnw'n helpu'r Pennaeth a/neu Cadeirydd y Llywodraethwyr i gadw at y canllawiau canlynol:

Canllawiau Llywodraeth Cymru: Cylchlythyr Rhif: 009/2014 - Diogelu Plant mewn Addysg - Ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill. *Sylwch bod y canllawiau hyn dan adolygiad adeg datblygu'r polisi hwn ac felly gallant newid.*

https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-11/diogelu-plant-mewn-addysg-ymdrin-a-honiadau-o-gam-drin-yn-erbyn-athrawon-a-staff-eraill.pdf

Canllawiau Llywodraeth Cymru: Gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo Staff Ysgol: Canllawiau Diwygiedig i Gyrff Llywodraethu (2020)

https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-02/gweithdrefnau-disgyblu-a-diswyddo-staff-ysgol_0.pdf

**Rhaid i ysgolion ddefnyddio ffurflen atgyfeirio Adran 5 wrth roi gwybod am honiad ynglŷn ag aelod staff neu oedolyn i'r gwasanaethau cymdeithasol.**

Er bod gan gyrff llywodraethu ran mewn arfer eu swyddogaethau disgyblu mewn perthynas â honiadau o gam-drin plant yn erbyn aelod staff, nid ydynt yn rhan o'r drefn o ystyried achosion unigol, a fydd yn cael eu hymchwilio dan drefniadau a nodir yn *Diogelu Plant mewn Addysg: ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill.*

Os yw'r pryder / honiad yn ymwneud ag aelod staff, ni ddylai'r ysgol wneud eu penderfyniadau mewnol eu hunain ar p'un a yw'n fater disgyblu neu'n fater amddiffyn plant. Dylai ysgolion gofio fod gan yr heddlu gyfrifoldebau a phwerau statudol dros benderfynu a ddylid cynnal ymchwiliad troseddol ai peidio. Rhaid i ysgolion **beidio** â chynnal eu hymholiadau amddiffyn plant mewnol eu hunain, ond yn hytrach, rhoi gwybod i'r awdurdod lleol neu i'r heddlu am eu pryderon.

Darllenwch Adran 5 Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar 'Honiadau/Pryderon Diogelu ynghylch Ymarferwyr a'r Rhai Hynny mewn Swyddi o Ymddiriedaeth' i gael rhagor o wybodaeth:

Commented [SF5]: Add in link for sect 5 form once available

https://diogelu.cymru/cy/chi-i/chi-i-c5/

### 13.1 Rhannu Pryderon

Gellir defnyddio Polisi Rhannu Pryderon yr ysgol er mwyn rhoi gwybod yn gyfrinachol am unrhyw ymddygiad camdriniol, amhriodol neu amhroffesiynol tuag at blant neu bobl ifanc, neu unrhyw ymddygiad sy'n torri cyfraith trosedd neu statud; yn peryglu iechyd a diogelwch; yn torri codau ymddygiad proffesiynol y cytunwyd arnynt, neu fel arall yn methu â chyrraedd y safonau ymarfer sefydledig mewn perthynas â phlant a phobl ifanc. Mae cyfrifoldeb ar unrhyw weithiwr sy'n credu na ddilynwyd gweithdrefnau priodol mewn perthynas â honiadau neu amheuon am aelod staff neu oedolyn, i uwchgyfeirio eu pryder yn uniongyrchol i'r Arweinydd Diogelu Dynodedig ar gyfer Addysg.

## 14. CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIAD

Fel cyflogwr a darparwr gwasanaethau, ni fydd Ysgol Cerrigydrudion yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon ar sail oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, nac ar sail y Gymraeg.

Mae'r holl ddysgwyr, eu rhieni a'u gofalwyr, gwirfoddolwyr, staff a llywodraethwyr yr ysgol yn cael eu gwerthfawrogi a byddant yn cael eu trin gydag urddas a pharch. Ni fyddwn yn goddef unrhyw fath o wahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth yn Ysgol Cerrigydrudion

Er mwyn gwneud penderfyniadau proffesiynol sensitif a gwybodus am anghenion dysgwyr a gallu rhieni i ymateb i anghenion eu plant, mae'n bwysig i staff ysgolion fod yn sensitif ynghylch gwahanol batrymau teulu a ffyrdd o fyw, ac i batrymau magu plant sy'n amrywio ar draws gwahanol grwpiau hil, ethnig a diwylliannol.

Byddwn yn gweithio ar draws cymuned gyfan ein hysgol i sicrhau bod ein hymrwymiad i gydraddoldeb a thegwch yn cael ei rannu, a byddwn yn cymryd camau i sicrhau bod ein hysgol yn hygyrch, yn groesawgar

ac yn gynhwysol.

## 15. BWRDD DIOGELU PLANT GOGLEDD CYMRU (BDPGC)

Mae Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru (BDPGC) yn gorff statudol sy'n cydlynu, monitro a herio ei asiantaethau partner i ddiogelu plant yng Ngogledd Cymru. Mae Cyngor Sir Conwy yn un o bartneriaid statudol BDPGC.

Mae amddiffyn ac atal plant ac oedolion sy'n wynebu risg rhag profi unrhyw niwed, a hybu lles trigolion Gogledd Cymru a'u galluogi i gyflawni canlyniadau gwell, yn parhau i fod yn ganolog i waith y Bwrdd.
Dylai ysgolion fod yn ymwybodol o waith BDPGC ac fe'u hanogir i ymgyfarwyddo â'r wybodaeth ddiweddaraf am gyfleoedd hyfforddi a threfniadau diogelu lleol drwy glicio ar y ddolen isod: https://www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru/

Mae gan BDPGC gyfrifoldeb statudol i gynnal Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl Amlasiantaeth pan fo digwyddiad arwyddocaol yn codi lle mae achos o gam-drin neu esgeuluso plentyn yn hysbys neu'n cael ei amau. Rhaid cynnal ADUS Cryno mewn unrhyw un o'r achosion canlynol, o fewn ardal y Bwrdd, lle mae camdriniaeth neu esgeulustod plentyn yn hysbys neu'n cael ei amau, a bod y plentyn wedi:

- marw, neu gael anaf sy'n bygwth bywyd,
- neu wedi dioddef amhariad difrifol a pharhaol i'w iechyd neu ddatblygiad,
- ac nad oedd y plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, nac yn Blentyn sy'n Derbyn Gofal ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn
- dyddiad y digwyddiad y cyfeirir ato uchod, neu'r
- dyddiad y bu i'r Awdurdod Lleol neu'r asiantaeth bartner berthnasol nodi bod plentyn wedi dioddef amhariad difrifol a pharhaol i'w iechyd neu ddatblygiad.

Pwrpas Adolygiad yw nodi'r hyn a ddysgwyd ar gyfer ymarfer yn y dyfodol ac mae'n cynnwys ymarferwyr, rheolwyr ac uwch swyddogion wrth archwilio manylion a chyd-destun gwaith asiantaethau gyda phlentyn neu deulu. Bwriedir i ganlyniad Adolygiad ddarparu dysg broffesiynol a sefydliadol a hybu gwelliant o ran ymarfer amddiffyn plant rhyngasiantaethol yn y dyfodol.

Efallai y bydd angen i ysgolion fod yn rhan o broses yr ADUS. Bydd ysgolion yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Plant ac Addysg mewn amgylchiadau o'r fath i sicrhau eu bod yn ymateb i geisiadau am wybodaeth a dogfennau ac i sicrhau presenoldeb mewn Digwyddiadau Dysgu yn ôl yr angen yn ystod y broses adolygu.

**CYFEIRIADAU**


**Gweithdrefnau Diogelu Cymru** 2019 https://diogelu.cymru/

**Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan** 2019:

- **Diogelu plant rhag Camfanteisio Troseddol** https://diogelu.cymru/cy/chi-i/chi-i-c6/
- **Diogelu plant rhag Camfanteisio Rhywiol** https://diogelu.cymru/cy/chi-i/chi-i-c6/
- **Diogelu plant y mae Cam-drin Domestig yn Effeithio Arnynt** https://diogelu.cymru/cy/chi-i/chi-i-c6/
- **Diogelu plant rhag Arferion Niweidiol sy'n ymwneud â Thraddodiad, Diwylliant, Crefydd neu Ofergoelion** https://diogelu.cymru/cy/chi-i/chi-i-c6/
- **Diogelu plant lle mae Pryderon ynghylch Ymddygiad Rhywiol Niweidiol** https://diogelu.cymru/cy/chi-i/chi-i-c6/
- **Diogelu plant rhag Cam-drin Ar-lein** https://diogelu.cymru/cy/chi-i/chi-i-c6/
- **Diogelu plant a all fod wedi'u Masnachu** https://diogelu.cymru/cy/chi-i/chi-i-c6/

Canllawiau Llywodraeth Cymru: 265/2020 **Cadw Dysgwyr yn Ddiogel** https://llyw.cymru/cadw-dysgwyr-yn-ddiogel

Canllawiau Llywodraeth Cymru: 002/2020 **Gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo Staff Ysgol: Canllawiau Diwygiedig i Gyrff Llywodraethu** https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/gweithdrefnau-disgyblu-a-diswyddo-staff-ysgol-canllawiau-diwygiedig-i-gyrff-llywodraethu_0.pdf

Canllawiau Llywodraeth Cymru: Rhannu delweddau noeth a hanner noeth: Ymateb i ddigwyddiadau a diogelu plant a phobl ifanc - canllawiau ar gyfer lleoliadau addysg https://hwb.gov.wales/cadwn-ddiogel-ar-lein/canllawiau-llywodraeth-cymru/rhannu-delweddau-noeth-a-hanner-noeth-ymateb-i-ddigwyddiadau-a-diogelu-plant-a-phobl-ifanc

**Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Canllawiau anstatudol ar rannu Gwybodaeth er mwyn diogelu plant 2019** https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-rhannu-gwybodaeth-er-mwyn-diogelu-plant.pdf

**Ffrydio byw a fideogynadledda: canllawiau ar arferion ac egwyddorion diogelu Hwb a gyhoeddwyd ym mis Mai 2020**

https://hwb.gov.wales/cadwn-ddiogel-ar-lein/canllawiau-llywodraeth-cymru/ffrydio-byw-a-fideogynadledda-arferion-ac-egwyddorion-diogelu

**Llywodraeth Cymru a Chyngor y DU ar Ddiogelwch ar y Rhyngrwyd: Pum cwestiwn allweddol ar gyfer cyrff llywodraethu er mwyn helpu i herio ysgolion a cholegau i ddiogelu eu dysgwyr yn effeithiol**

https://hwb.gov.wales/cadwn-ddiogel-ar-lein/canllawiau-llywodraeth-cymru/pum-cwestiwn-allweddol-ar-gyfer-cyrff-llywodraethu-er-mwyn-helpu-i-herio-ysgolion-a-cholegau-i-ddiogelu-eu-dysgwyr-yn-effeithiol

**Parth Cadw'n Ddiogel Ar-lein Hwb** https://hwb.gov.wales/parthau/cadwn-ddiogel-ar-lein/

**360 Degree Safe** https://360safecymru.org.uk/dashboard/

**Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI)** https://www.waspi.llyw.cymru/

**Operation Encompass**
https://www.operationencompass.org/

**Y Swyddfa Gartref: Pecyn Cymorth Dyletswydd Prevent i Awdurdodau Lleol ac Asiantaethau Partner 2018 (Cymru a Lloegr)**
https://www.gov.uk/government/publications/prevent-duty-toolkit-for-local-authorities-and- partner-agencies

**Y Swyddfa Gartref: Canllawiau ar gamfanteisio troseddol ar blant ac oedolion agored i niwed: llinellau sirol (Cymru a Lloegr)**
https://www.gov.uk/government/publications/criminal-exploitation-of-children-and- vulnerable-adults-county-lines#history

**Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru**
https://www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru/

**Estyn** https://www.estyn.llyw.cymru/diogelu/

**Arweiniad Atodol Estyn: arolygu diogelu mewn ysgolion a UCDau 2017**
https://dera.ioe.ac.uk/id/eprint/30938/2/NIA%20Supplementary%20guidance%20-%20Safeguarding%20in%20schools%20and%20PRUs%20cy.pdf
https://www.estyn.gov.wales/system/files/2020-07/Supplementary%2520guidance%2520-%2520Safeguarding%2520in%2520schools%2520and%2520PRUs-%2520Autumn%25202017.pdf

**Cyngor Sir Conwy: Polisi Gwiriadau Datgelu a Gwahardd**

**Cyngor Sir Conwy: Canllaw i Ysgolion ar Reoli Argyfyngau 2019**

**Cyngor Sir Conwy: Polisi Gwirfoddoli**

**Cyngor Sir Conwy: Polisi Recriwtio a Dethol Diogel**

**Cyngor Sir Conwy: Polisi Diogelu Corfforaethol**